Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 15fed Rhagfyr, 2015 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Bethan Richardson<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.gov.uk |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | **Aelodau** |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU | Cyng/Cllr. Dyfrig Siencyn | Arwel Ellis Jones | 1 |
| 5 | COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 24ain O DACHWEDD 2015 | | | 2 - 5 |
| 6 | TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16 - MEYSYDD AMGYLCHEDD, AMDDIFADEDD, ECONOMI A CHYMUNED | Cyng/Cllr. Dyfed Wyn Edwards | Geraint Owen | 6 - 27 |
| 7 | DATGANIAD ANSAWDD BLYNYDDOL CARTREFI PRESWYL A NYRSIO GWYNEDD 2014/15 | Cyng/Cllr. W Gareth Roberts | Morwena Edwards | 28 - 39 |
| 8 | ADRODDIAD GWERTHUSO PERFFORMIAD AROLYGAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014/15 | Cyng/Cllr. W Gareth Roberts | Morwena Edwards | 40 - 60 |
| 9 | BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD | Cyng/Cllr. Dyfed Wyn Edwards | | 61 - 63 |

**CYFARFOD CABINET 15 RHAGFYR, 2015**

**ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 17 TACHWEDD, 2015**

**A. EITEM - YR IAITH GYMRAEG Â'R DREFN GYNLLUNIO**
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s1129/Cynllunio%20ar%20Iaith%20Gymraeg.pdf?LLL=1

Ystyriwyd - Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio ar y cefndir polisi a statudol ar gyfer yr Iaith Gymraeg a'r Drefn Gynllunio a datblygiadau allweddol sydd ar y gweill

Penderfynwyd
a) Cefnogi gwaith y Panel Cynllunio ar y Cyd i geisio sicrwydd bod y cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfarch her yr iaith y ddigonol ac yn cyfarch y galw am y nifer o dai.
b) Bod angen sicrhau mewnbwn y pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Iaith yn natblygiad y Canllaw Cynllunio Atodol newydd a'r sylw a fydd yn cael ei roi i'r Iaith yn y canllaw hynny.

**B. EITEM - CYTUNDEBAU ADRAN 106**
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s1132/Y%20defnydd%20o%20gytundebau%20dan%20adran%20106%20or%20Ddeddf%20Gynllunio%20Gwlad%20a%20Thref%201990.pdf?LLL=1

Ystyriwyd – Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio yn amlygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer y defnydd o gytundebau Adran 106 a pha mor effeithiol oeddent yn cael eu gweithredu.

Penderfynwyd gohirio penderfyniad am y tro tra bod gr?p bach o gynghorwyr a swyddogion i gyfarfod gydag un neu ddau o arbenigwyr allanol i edrych ar opsiynau posib eraill ar gyfer defnydd o Gytundebau 106 gan y Cyngor i'r dyfodol.

**C. EITEM – CLUDIANT ÔL-16**
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s1135/Gweithredu%20Argymhellion%20Adroddiad%20Ymchwiliad%20Craffu%20Cludiant%20l-16%20i%20Addysg%20Bellach.pdf?LLL=1

Ystyriwyd – Adroddiad gan yr Aelod Cabinet (Addysg) yn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Cludiant Ôl-16 i Addysg Bellach.

Penderfynwyd:-
a) Mynegi pryder am yr arafwch yn y gweithredu ar yr argymhellion, croesawu'r gwaith sydd yn digwydd bellach, ond pwyso am weithredu buan ar y cyfan o'r argymhellion yn codi o'r Ymchwiliad, gan ofyn yn benodol i'r Aelod Cabinet rhoi sylw i:
   i. Safon ac ansawdd y ddarpariaeth yn rhannol yn sgil gorlenwi
   ii. Y cyfyngiad ar y nifer o droeon neu'r adegau y mae myfyrwyr yn cael defnyddio'r tocyn ac awgrym bod trafodaeth yn digwydd gyda darparwyr i arbrofi i ganiatáu hyblygrwydd am gyfnod
   iii. Y defnydd o'r "My Travel Pass" – Amharodrwydd y cwmnïau bws i gydnabod y defnydd ohonno
   iv. Cysylltu â Llywodraeth Cymru i bwyso am weithredu trefn fel sydd yn Lloegr i gynorthwyo myfyrwyr o'r aelwydydd tlotaf.
b) Gofyn i'r Aelod Cabinet adrodd yn ôl ar y materion hyn cyn Medi 2016.

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**
**COFNODION**
**24 Tachwedd 2015**

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.
Y Cynghorydd John Pughe Roberts – eitemau 7-9.

**Hefyd yn bresennol** –
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Prif Swyddog Cyllid), William Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

**1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Gareth Thomas, Cyng. W Roy Owen a'r Cyng. Gethin Glyn Williams.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Ioan Thomas fuddiant personol yn Eitem 6 ar y rhaglen oherwydd ei fod yn aelod o Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon. Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac fe gymerodd ran yn y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cywirwyd y cofnodion a gyflwynwyd gyda phapurau'r cyfarfod i nodi presenoldeb swyddog, ac yna llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2015.

## 6. GORCHYMYN PARCIO ODDI AR Y STRYD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.
Eiliwyd gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

**PENDERFYNIAD**

Yn dilyn y broses ymgynghori, derbyn y newidiadau a nodir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad a bwrw 'mlaen i sefydlu Gorchymyn Parcio newydd.

Dirprwyo hawl i Bennaeth Adran Rheoleiddio mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet dros Rheoleiddio, Pennaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i wneud unrhyw fan addasiadau o fewn y strategaeth sydd eu hangen i'r cynllun er cwblhau y gorchymyn.

Cynnwys meysydd parcio staff y Cyngor yn y Gorchymyn Parcio er mwyn gallu rheoli cam ddefnydd ac agweddau iechyd a diogelwch yn fwy effeithlon.

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2015/16 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2015) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2.2 – 2.8 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd £965,000 mewn defnydd o fenthyca heb gefnogaeth,
- cynnydd £3,278,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
- cynnydd £154,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
- cynnydd £300,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
- lleihad £17,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf,
- cynnydd £847,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu,
- trosglwyddo £200,000 rhwng cynllun Llyfrgell Bala a chynllun Ysgolion dalgylch y Berwyn.

## 8. CYLLIDEB REFENIW 2015/16 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2015) o'r Gyllideb Refeniw, ac wedi ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu arweiniad/rheolaeth.

Nodi'r amrywiol adolygiadau o drefniadau crybwyllwyd yn yr adroddiad a'r camau i'w cymryd gan adrannau i gadw rheolaeth ar eu cyllidebau.

Wedi ystyriaeth o'r sefyllfa, cymeradwyo, yn benodol, yr addasiadau a throsglwyddiadau argymhellwyd mewn perthynas â'r Adrannau Addysg, Economi a Chymuned, Rheoleiddio a Chyllidebau Corfforaethol.

**9. STRATEGAETH ARIANNOL 2016/17 – 2019/20**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. John Wynn Jones.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn y diweddariad a'r crynodeb o Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20 a pharhau gyda'r cynllun ymateb cyfredol, 'Her Gwynedd', ar gyfer 2016/17 – 2017/18, gan ddatgan:

a) Bod Cabinet Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r toriadau yn ei dyraniad grant sy'n cael ei orfodi ar y Cyngor gan Lywodraethau San Steffan a Chymru.
b) Y bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn gwireddu ei chyfrifoldeb statudol i gytuno ar gyllideb gytbwys rhag iddi, yn y pen draw, redeg allan o arian a methu talu ei gweithwyr a'i chyflenwyr.

**10. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16 – MEYSYDD PLANT A PHOBL IFANC, DIOGELU, Y GYMRAEG, CYNGOR EFFEITHIOL AC EFFEITHLON, A CHYNLLUNIO ARIANNOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod.

**11. 'EICH GWASANAETHAU CHI, EICH DEWISIADAU CHI' – YMGYNGHORIAD GAN YR AWDURDOD TÂN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.
Eiliwyd gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Y dylai'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad drwy groesawu'r bwriad i gyfyngu ar wariant yr Awdurdod Tân dros y tair mlynedd nesaf, ond gan bryderu na dderbyniwyd tystiolaeth ariannol ynglŷn a gallu'r awdurdod i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, ac yn tynnu sylw at effaith hynny ar allu'r Cabinet i graffu yr Ymgynghoriad.

Gofyn am ystyriaeth i gyfundrefn graffu rhanbarthol gael ei sefydlu er mwyn craffu gwerth am arian a geir gan yr Awdurdod Tân.

**12. ADRODDIAD AR WAITH PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS, A'R POLISI CORFFORAETHOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.
Eiliwyd gan y Cynghorwyr Dyfrig Siencyn ac W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (Atodiad 1).

Cymeradwyo'r Polisi Corfforaethol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus sydd wedi ei adolygu a'i ddiweddaru (Atodiad 2).

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 2.50pm.

________________________________________

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I'R CABINET**
15/12/2015

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Dyfed Edwards

**Pwnc:** Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015-16 - meysydd Amgylchedd, Amddifadedd, Economi a Chymuned

**Swyddog cyswllt:** Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn yr aelod lleol**

Nid yw'n fater lleol.

---

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015-16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Dlodi, Amddifadedd, Economi, Tai a'r Amgylchedd sydd yn rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies
Y Cynghorydd Ioan Thomas
Y Cynghorydd John Wynn Jones

1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y Cynllun Strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

**2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**
Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3.0 Prif negeseuon**

3.1 Prosiectau yn cyflawni yn unol â'r cerrig milltir a pherfformiad mesurau yn sefydlog.

**4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol**
Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015-16 yn y meysydd Tlodi, Amddifadedd, Economi Tai. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol, a dylid nodi nad oes prosiectau ym maes Amgylchedd (sydd ym mhortffolio'r Cynghorwyr John Wynn Jones a Dafydd Meurig).

**4.1 Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**

**Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**
**T1 Swydd Gwerth Uchel ac o Ansawdd**
**Pwrpas y prosiect hwn yw creu'r amodau er mwyn creu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd yn y sir.**

Mae tair ffrwd gwaith yn perthyn i'r prosiect yma:

i) Rhaglen i gefnogi buddsoddiad, gan gynnwys datblygu perthynas efo'r cwmnïau o du allan i Wynedd. Mae swyddi yn y sectorau diwydiannau creadigol, cwmnïau technoleg gwybodaeth a'r sector "aviation" yn cael eu targedu. Hyd yma mae 22 swydd gwerth uchel wedi eu creu yn y sir.

ii) Parth Menter Eryri (ardaloedd Trawsfynydd a Llanbedr). O ran Trawsfynydd, mae Bwrdd Parth Menter Eryri yn canolbwyntio ar ddod â buddsoddiad newydd i'r safle. Mae cynllun lobio'r Cynulliad a San Steffan yn weithredol. Gyda Llanbedr, mae perchnogion y safle yn parhau i fuddsoddi er mwyn datblygu canolfan ragoriaeth ar gyfer Systemau Awyr Di-beilot. Mae cynllun cynhwysfawr wedi'i ddatblygu ar gyfer y safle - a chais cynllunio i'w gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol ddechrau blwyddyn nesaf. Mae cynlluniau ar gyfer ffordd osgoi newydd i Lanbedr hefyd yn cael eu paratoi. Mae Llanbedr hefyd ar restr fer y Llywodraeth ar gyfer datblygiad y Porth Gofod (canolfan ar gyfer teithio i'r gofod), ac mae'n debygol o fod yn gystadleuaeth rhwng Cernyw, safle yn yr Alban a Llanbedr.

iii) Creu deunyddiau marchnata i dargedu sectorau penodol – mae hyn yn cynnwys targedu sectorau fel y diwydiannau creadigol a thechnoleg gwybodaeth gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae cynnyrch marchnata wedi ei rannu ar Twitter a Linked-In. Mae'r cynnyrch yn hyrwyddo Gwynedd i fusnesau gan nodi manteision yr ardal.

Mae'r prosiect wedi cyrraedd y cerrig milltir disgwyliedig, a bydd gwir effaith y prosiect i'w weld ar ddiwedd y prosiect a thu hwnt.

**T2 Cadw'r budd yn lleol**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau bod gan fusnesau'r sir yr wybodaeth a'r gallu i fanteisio ar drefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd y Cyngor.**

Disgwylir i'r prosiect gael mwy o fusnesau i dendro ac ennill cytundebau'r Cyngor.

Mae gwaith ymchwil o fewn y prosiect wedi adnabod tri phrif rwystr i fusnesau, sef:

- Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd a gofynion tendro yn y farchnad leol
- Proses a gofynion tendro aneglur
- Diffyg capasiti yn y farchnad leol i gystadlu

Un o'r datrysiadau ar gyfer y rhwystrau hyn yw gweithredu trefn rheolaeth categori, sef prynu'n strategol drwy gynllunio'n well, cydweithio gyda phartneriaid a deall y farchnad. Ar gyfer y gwaith yma, rhennir gwasanaethau'r Cyngor yn gategorïau, sef Pobl, Amgylchedd a Chorfforaethol. Rydym eisoes yn gweithredu cynllun mewnosod ar gyfer y drefn newydd gan ddechrau'r gyda'r categori sy'n ymwneud â gwasanaethau Pobl (e.e. gofal). Mae gwaith cychwynnol hefyd wedi ei wneud ar sefydlu'r categorïau Amgylchedd a Chorfforaethol.

Mae'r prosiect yn cadw at ei gerrig milltir, a bydd ei wir effaith i'w weld ar ddiwedd y prosiect a thu hwnt.

**T3 Gwynedd Ddigidol**

**Pwrpas y prosiect hwn yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fand eang cyfoes ar draws y sir.**

Mae cerrig milltir clir wedi eu hadnabod ar gyfer y prosiect, ac wedi eu cytuno. Mae gwaith yn parhau i weithio tuag at y cynigion cyflawni. Erbyn hyn mae band eang cyflym ar gael yn rhannol o fewn ardal 42 o'r 46 cyfnewidfa ffôn yng Ngwynedd. Yn ogystal mae Rhaglen Cyflymu Cymru 70% yn gyflawn yng Ngwynedd gyda 43,000+ o gartrefi/busnesau bellach yn gallu derbyn band eang cyflym. Mae'r gwaith o uwchraddio caledwedd rhwydwaith wi-fi am ddim y Cyngor wedi ei gwblhau.

Mae cynllun cenedlaethol £12.5m wedi cael ei gymeradwyo ym mis Medi gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Cynllun yw hwn sy'n cefnogi busnesau i fanteisio ar fandeang cyflym. Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni drwy gytundeb Busnes Cymru gan gychwyn yn Ionawr 2016.

Mae Gwynedd wedi ei chadarnhau yn un o bedair ardal ledled Prydain fydd yn destun cynllun blwyddyn (wedi'i ariannu gan y Loteri Fawr) i ddatblygu dull systemig o gynyddu gallu a gwytnwch digidol trigolion.

Mae modd nodi o dan y cynllun cefnogi busnes bod:

- 7,500 o fusnesau wedi derbyn gwybodaeth
- 875 o fusnesau wedi gwneud defnydd o ddeunyddiau ar-lein
- 50 o fusnesau wedi mynychu gweithdai
- 20 o fusnesau wedi derbyn cefnogaeth un i un
- 97% o fusnesau yn adrodd i'w dealltwriaeth o fanteision band eang gynyddu
- 3 clwstwr busnes wedi eu cefnogi i gydweithio drwy dechnoleg

**T4 Cefnogi'r economi wledig**
**Pwrpas y prosiect yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth ar draws cymunedau Gwynedd.**

Mae'r cynllun yn mynd yn ei flaen, gyda Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) wedi ei sefydlu ac wedi cwrdd nifer o weithiau. Mae grwpiau thematig o aelodau'r LAG wedi eu sefydlu ac yn canolbwyntio ar themâu unigol. Mae ymchwil/gwaith datblygu drwy law cynllun Ewropeaidd LEADER, sef datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig, yn cael ei gynnal yn y meysydd canlynol:

- cydweithio o fewn y sector ynni adnewyddol cymunedol
- cynllunio siopa lleol i'r henoed
- rhodd ymwelwyr (sy'n annog ymwelwyr i roi cyfraniad gwirfoddol sydd wedyn yn cael ei roi tuag at brosiectau i warchod yr ardal)
- adeiladu ar gynllun cyfieithu O Glust i Glust (www.oglustiglust.com)
- adeiladu ar gynllun Be Nesa Llyn (https://benesallyn.wordpress.com/)
- gwaredu gwastraff swmpus

Mae drafft cynderfynol o Gynllun Cyflogaeth Llyn ac Eifionydd wedi ei dderbyn, ond mae ynghlwm gyda chynigion toriadau Her Gwynedd. Golyga hyn bod yr adroddiad yn cael ei ddal yn ôl nes bod oblygiadau'r toriadau'n glir.

Bydd gwir effaith y prosiect i'w weld ar ddiwedd y prosiect a thu hwnt.

**T5 Safle Treftadaeth y Byd**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd.**

Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu cais ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi. Rhagwelir cyflwyno'r cais i Lywodraeth y DU yn Hydref 2017, ar gyfer arfarniad gan UNESCO yng ngwanwyn 2018, felly dylid nodi addasiad i'r amserlen a nodwyd yn wreiddiol yn y cynllun strategol. Bydd yr amserlen yn her ond mae hefyd yn darged cyraeddadwy. Mae effaith potensial y statws yma yn enfawr, nid yn unig oherwydd y budd economaidd posib, ond hefyd y cynnydd mewn balchder a hyder cymunedau.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cynllun Glannau Caernarfon. Rhaglen o brosiectau uchelgeisiol ac arloesol yw hon i ddatblygu: "tref lewyrchus ac unigryw fydd yn darparu cyfoeth o gyfleoedd i ymwelwyr a thrigolion Caernarfon drwy ddefnydd unigryw ein asedau gan ei wneud y prif atyniad celfyddydol yng Ngogledd Cymru". Y bwriad yw hybu dyfodol economaidd y dref drwy ddefnyddio ei hasedau a'i chryfderau unigryw i greu twf economaidd a swyddi cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys prosiectau megis- Menter Siopau Gwag, Mentro Mlaen: Prosiect i roi'r grym i bobl ifanc i symud o gefnogaeth i gyflogaeth drwy ddarparu sgiliau a hyder. Creu Cymunedau Cyfoes: Prosiect i adfywio Caernarfon mewn ffyrdd newydd a dychmygol drwy weithio gyda cymunedau ac artistiaid.

Mae a gwariant o'r gronfa Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar gyfer 2015-16 wedi ei glustnodi. Yn ogystal mae'r broses cynllunio busnes wedi cychwyn er mwyn sicrhau arian Ewrop. Mae'r camau cyntaf wedi eu cyflwyno i WEFO, a'r gwaith yn digwydd yn unol â'r amserlen.

**T6 Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith. Mae'n brosiect rhanbarthol (Gogledd Cymru) gyda Gwynedd wedi bod yn cyfrannu at gomisiynu'r gwaith.**

Mae gwaith yn parhau ar nifer o brosiectau rhanbarthol sydd yn mynd i'r afael â dileu rhwystrau a gwella mynediad pobl y sir i waith. Mae adrannau gwahanol yn arwain ar sicrhau mewnbwn Gwynedd i'r prosiectau rhanbarthol hyn. Erbyn hyn mae sefyllfa'r prosiectau fel a ganlyn:

Trac 11-19 oed (Adran Addysg), sef cynllun i gefnogi pobl ifanc sy'n ymddieithrio o addysg, ac sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg gwaith a hyfforddiant (NEET): Rydym yn disgwyl cymeradwyaeth gan WEFO cyn diwedd y mis.
Trac 16-24 oed (Adran Economi a Chymuned), cynllun i ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 16-24 oed sydd yn NEET a'u hannog yn ôl i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth: Rydym yn cyflwyno cynllun busnes i WEFO, gan ddisgwyl cymeradwyaeth erbyn diwedd Chwefror.
Opus (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), cynllun i gefnogi unigolion gydag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl: Rydym yn cyflwyno'r cynllun busnes i WEFO, gan ddisgwyl cymeradwyaeth ym mis Ionawr.

Cymunedau i Waith (Adran Economi a Chymuned): Rydym wedi derbyn cymeradwyaeth WEFO ac yn disgwyl bod yn weithredol ddechrau'r flwyddyn.

Bydd yr aelod Cabinet yn trefnu cyfarfod rhwng swyddogion ac aelodau cabinet perthnasol i sicrhau fod y rhaglen hon yn tynnu'r prosiectau uchod at ei gilydd. Bydd hyn yn arwain at ffurfioli trefniadau atebolrwydd y prosiectau unigol ac yn gyfrwng i sicrhau perfformiad ac effaith y prosiectau rhanbarthol hyn yn lleol.

**Y Cynghorydd Ioan Thomas**
**T7 Cydymdrechu yn erbyn tlodi**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd mabwysiadu a gweithredu strategaeth i Drechu Tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid.**

Comisiynwyd darn o waith i adnabod a diffinio tlodi yng Ngwynedd heddiw, i fapio ymyraethau, ac i adnabod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Mae'r comisiwn yn cadarnhau fod patrwm tlodi yng Ngwynedd yn un cymhleth, ond ei fod yn ei hanfod yn ddibynnol ar gyflwr yr economi. Yn benodol mae patrwm tlodi yng Ngwynedd yn cael ei effeithio gan Dlodi Lluosog (h.y. cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan nifer o fathau gwahanol o dlodi), Tlodi mewn Gwaith a Thlodi Gwledig.

Mae gwaith pellach i'w wneud er mwyn bod yn glir ynghylch y blaenoriaethau'n lleol ac yn genedlaethol. Mae'r cerrig milltir sydd wedi eu gosod hyd yn hyn wedi eu cyflawni, ac mae elfennau gweithredol y prosiect eisoes yn symud yn eu blaen yn dda o ran gweithgareddau cynhwysiad ariannol, cynhwysiad digidol a chynhwysiad economaidd.

**T8 Adolygu Strategaeth Cyflenwad Tai**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd adolygu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd.**

Cafodd aelodau'r Cabinet drafodaethau i wyntyllu cyfeiriad y maes yn ystod mis Hydref. Cytunwyd fod angen mwy o fanylder ar anghenion a chostau y cynlluniau posib ynghyd â gwybodaeth am beth fyddai effaith y datblygiadau gwahanol yn erbyn unrhyw fuddsoddiad. Mae gwaith yn mynd rhagddo o ran hyn cyn cael trafodaethau pellach.

Hyd yma mae cerrig milltir y prosiect wedi eu cyflawni o fewn yr amserlen, ond gan fod angen gwneud gwaith pellach mae risg i'r cam nesaf lithro rhywfaint. Yn wreiddiol bwriadwyd cyflwyno'r achos busnes i'r Cabinet ym mis Rhagfyr ond rhagwelir fod cychwyn y flwyddyn newydd bellach yn fwy realistig.

**5.0 Mesurau**

**5.1 Gwaith datblygol** – Mae gwaith yr unedau gwaith ar draws y Cyngor i ail edrych ar ddiffinio eu pwrpas drwy lygaid ein dinasyddion wedi gwneud cynnydd. Mae mesurau yn dechrau dangos newid fel eu bod yn sicrhau fod y pethau cywir yn cael eu mesur. Bydd y gwaith yma yn parhau.

Rhestrir isod y mesurau y dylid tynnu sylw yn benodol atynt er mwyn amlygu'r perfformiad. Cyflwynir rhestr gyflawn o'r mesurau sy'n berthnasol i'r meysydd a drafodir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.

**5.2 Amgylchedd**

**Y Cynghorydd John Wynn Jones**

5.2.1 THS/011a- Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael, THS/011b- Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael a THS/011c- Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael. Mae'r rhain yn fesurau cenedlaethol sy'n cael eu mesur yn flynyddol. Er bod y Cyngor wedi gwella ar eu perfformiad y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae mater wedi dod i'n sylw: O edrych ar gymhariaeth perfformiad awdurdodau Cymru, mae Gwynedd, ar y cyd gyda phum awdurdod gwledig arall yng Nghymru yn y chwartel isaf. Mae hyn yn awgrymu bod awdurdodau gwledig o dan anfantais i gymharu ag awdurdodau mwy trefol. Bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach er mwyn ystyried a yw hyn yn codi cyfle i ddylanwadu ar ein dyraniad adnoddau yn y setliad.

5.2.2 Mae'r mesur PB60 - Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (lwfans tirlenwi) yn perfformio'n foddhaol, ac mae'r perfformiad wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd. Er hyn, mae'r perfformiad yn parhau i fod yn uchel yn genedlaethol. Mae cwestiynau yn codi o ran y ffordd mae'r lwfans wedi cael ei osod, ac mae yna le i ystyried cwestiynu'r Llywodraeth am y ffordd y mae'n cael ei osod. Fodd bynnag gan ein bod o dan y trothwy lwfans, cymerwyd y farn nad oes pwrpas gwastraffu amser ar hynny ar hyn o bryd.

5.2.3 Mae holl fesuryddion yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a adroddwyd arnynt wedi gwneud cynnydd ar eu perfformiad ers y llynedd.

5.2.4 Yn dilyn ymarferiad Ffordd Gwynedd mae'r rhan fwyaf o fesurau'r Adran Ymgynghoriaeth (sydd yn darparu gwasanaethau ymgynghori isadeiledd ledled Cymru) yn ymwneud â chreu incwm i'r Cyngor. Dengys y rhagolygon ein bod ar drac i wneud elw, ond bod hwn ar hyn o bryd ychydig yn is na'r hyn a gynlluniwyd.

5.2.5 Mae diffyg prosiectau mawr gan Lywodraeth Cymru wedi effeithio ar ein gwasanaeth ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa i weld yn gwella gyda gwaith wedi bod yn ein cyrraedd gan awdurdodau eraill megis Conwy a Phowys.

5.2.6 Mae'r gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus yn cael eu derbyn ar Fframwaith Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS). Mae hyn yn golygu bod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn gontractwr dewisol ar gyfer fframwaith cenedlaethol, gyda'r potensial o dderbyn gwaith ar draws Cymru. Mae hyn law yn llaw gyda chwmnïau mawr cenedlaethol.

5.2.7 Yn ychwanegol i'r mesurau ariannol bydd y gwasanaeth yn datblygu mesurau penodol ar gyfer yr Uned Rheolaeth Adeiladu a'r Uned Dwr a'r Amgylchedd.

**Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

5.2.8 Mae perfformiad PLA/005 - Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 12 wythnos o gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn wedi gostwng yn y chwarter. Gan fod nifer o achosion hanesyddol wedi eu datrys o fewn y chwarter disgwylir y bydd perfformiad y mesur yn gwella i'r dyfodol.

5.2.9 PAM9a- Canran o sefydliadau bwyd sydd yn y system sy'n cyrraedd sgôr 4/5 safonau hylendid bwyd
PAM9- Canran o sefydliadau bwyd sydd yn 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd. Mae trefniadau gwaith hylendid bwyd wedi gwella'n aruthrol dros y blynyddoedd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu ym mherfformiad y mesurau yma. Er hyn, mae nifer o fesurau hylendid bwyd, ac mae angen cwestiynu os oes dyblygu. Bydd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd yn cael ei fesur.

5.2.10 Mae perfformiad Cludiant01- Canran o siwrnai cludiant cyhoeddus (bysus) sydd wedi eu monitro sydd o fewn y terfynau dibynadwyedd (amseroldeb bysus), wedi lleihau'n sylweddol i 66% yn y cyfnod. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod materion fel goleuadau traffig wedi cael effaith mawr ar amseroldeb bysus. Byddwn yn cadw llygad ar y sefyllfa er mwyn sicrhau nad yw'r perfformiad yn parhau.

5.2.11 Parcio03 - Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth. Mae gwaith wedi cychwyn ar ddadansoddi'r mesur yma, ac i ddeall anghenion a disgwyliadau trigolion Gwynedd. Bydd gwaith yn parhau i ganfod barn er mwyn gwella perfformiad.

5.2.12 PLA002 - Canran y ceisiadau cynllunio wedi eu pennu a gafodd eu cymeradwyo. Mae gwaith pellach wedi ei adnabod gyda'r mesurydd yma, er mwyn adnabod pa geisiadau sy'n gysylltiedig â chreu swyddi, a pha rai sydd ddim, yn ogystal â gwybodaeth am y ceisiadau sydd heb lwyddo a pham.

**5.3 Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**

**Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**

5.3.1 Mae mesurau'r maes hyd yma yn cwrdd â'r uchelgais. Mae gwelliant bychan i'w weld yn Caff06d, ers y llynedd, gyda 40.48% o wariant y Cyngor gyda busnesau lleol hyd yma. Disgwylir gweld cynnydd pellach i'r dyfodol yn sgil gwaith prosiect Cadw'r Budd yn Lleol.

5.3.2 Mae Uchel 07 - Nifer y swyddi gwerth uchel wedi'u creu yn perfformio'n dda, ac ar darged i wella ar berfformiad llynedd. Mae 20 swydd gwerth uchel wedi eu creu yn Arfon a dwy yn Nwyfor dros y chwe mis diwethaf.

5.3.3 Ar hyn o bryd mae nifer o fesurau'r maes yn rhai sy'n adrodd yn flynyddol. Oherwydd hyn mae'r gwasanaeth yn ail-edrych arnynt, er mwyn adnabod rhai lle mae modd cynyddu'r amlder monitro. Bydd hyn yn helpu i reoli'r perfformiad ac yn cynyddu dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn y maes.

**Y Cynghorydd Ioan Thomas**

5.3.4 Ar y cyfan mae mesurau yn awgrymu perfformiad sefydlog yn Chwarter 2 o'i gymharu â'r blynyddoedd cynt. Yn benodol (DAT 01) o ran dod â niferoedd y tai gwag (sydd wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy yn ôl i ddefnydd - 36 eleni o'i gymharu â 34, 25 a 25 yn y blynyddoedd cynt.

5.3.5 Gyda chynifer o fesurau'r maes hwn yn adrodd yn flynyddol neu'n chwarterol, mae'n hanfodol fod y mesurau sydd yn cael eu datblygu o'r newydd neu sy'n cael eu dewis ar gyfer mesur pwrpas gwasanaethau yn wybodaeth 'byw' ac ar gael pan fo angen.

## 6.0 Casgliad

6.1 Gwelir fod prosiectau yn gwneud cynnydd da a dim pryderon na fyddwn yn cyflawni'r hyn yr ydym wedi ei addo. Mae un eithriad i hyn, lle y rhagwelwyd llithriad anorfod mewn amserlen un prosiect (T8 - Adolygu Strategaeth Cyflenwad Tai) er mwyn cael mwy o fanylder ar anghenion a chostau y cynlluniau posib ynghyd â gwybodaeth am beth fyddai effaith y datblygiadau gwahanol yn erbyn unrhyw fuddsoddiad.

6.2 Mae perfformiad mesurau yn sefydlog, a'r gwaith datblygiadol i ddatblygu mesurau gwell yn parhau.

## 7.0 Argymhelliad

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n nodi'r adroddiad hwn sy'n rhoi trosolwg o gynnydd yn y meysydd penodol sydd yn derbyn sylw. Yn gyffredinol mae'r cynnydd yn dda iawn yn yr amgylchiadau. Rwy'n ymwybodol y bydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ystyried yr adroddiad yn fuan yn un o'i gyfarfodydd paratoi ac efallai y bydd yn dewis craffu unrhyw faterion o bryder.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

* = Ffigwr is yn welliant

## Atodiad 1- Mesurau

### Amgylchedd - Y Cynghorydd John Wynn Jones

| Gwasanaeth | Mesur- diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd | THS/011a Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael | 4.40 | 4.40 | 3.50 | Cynnal* | Mesur Blynyddol |
| Priffyrdd | THS/011b Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael | 4.40 | 4.70 | 3.70 | Cynnal* | Mesur Blynyddol |
| Priffyrdd | THS/011c Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael | 7.50 | 14.70 | 14.2 | Cynnal* | Mesur Blynyddol |
| Priffyrdd | THS/009 Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn I atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd | 2.40 | 2.70 | 3.50 | Cynnal* | Mesur Blynyddol |
| Priffyrdd | PB8 Canran o ddigwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau atgyweirwyd neu wnaethpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 97.00 | 97.20 | 97.00 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Priffyrdd | PB9 Canran o'r archwiliadau diogelwch wedi eu cwblhau o fewn y cyfnod penodedig. | 98.00 | 98.30 | 98.00 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Gwasanaethau Stryd | STS/005a Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 71.88 | 73.5 | 70.65 | Cynnal | 76.43 |
| Gwasanaethau Stryd | STS/005b Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyr sydd a'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol | 94.12 | 93.5 | 94.3 | Cynnal | 96.70 |
| Gwasanaethau Stryd | STS/006 Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith I'r amser hysbyswyd | 93.8 | 97.3 | 96.5 | Cynnal | 97.12 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Stryd | PB15 Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 100 |
| Gwasanaethau Stryd | PB16 Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, glanhawyd/cliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd. | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 100 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | WMT/004 Canran y gwastraff trefol yrrwyd I'w dirlenwi | 47.31 | 45.94 | 43.33 | Gwelliant* | 36.37 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | WMT/009 Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio | 51.18 | 54.3 | 55.25 | Gwelliant | 58.84 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB51 Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 27.3 | 30.79 | 35.45 | Gwelliant | 42.24 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB60 Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (Lwfans tirlenwi) | 20695 | 19650 | 18603 | Gwelliant* | 0.91 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB56 Canran galwadau Gwastraff a ddiwallwyd tro cyntaf | Dim data | 94.5 | 95 | Gwelliant | 95.72 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB57 Canran galwadau Bwrdeistrefol ddiwallwyd tro cyntaf | Dim data | 92.6 | 91.3 | Gwelliant | 97.22 |
| Priffyrdd | PB58 Canran galwadau Cynnal Priffyrdd a ddiwallwyd tro cyntaf | Dim data | 86.70 | 90.00 | Gwelliant | 92.53 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd | PB59 Canran Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer wedi eu bodloni gydag ymateb yr Adran | Dim data | Dim Data | 94.1 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo9-Canran y lleihad yn lefel yr allyriadau carbon sy’n cael ei gynhyrchu trwy weithgareddau’r Cyngor | 15.1 | 24.8 | 26.1 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo10-Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. | 17.98 | 30.76 | 30.3 | I’w sefydlu | Mesur Blynyddol |
| Eiddo Corfforaethol | CC1- Capasiti (kWh) trydan y gall y Cyngor ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddol yn ei adeiladau ei hun | - | - | 303230 | Gwelliant | Mesur Blynyddol |
| Eiddo Corfforaethol | CC2- Capasiti (kWh) gwres y gall y Cyngor ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddol yn ei adeiladau ei hun. | - | - | 343720 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Eiddo Corfforaethol | CC3- Canran newid mewn allyriadau carbon sy’n gysylltiedig â theithiau busnes. (ac eithrio achlysuron sydd allan o reolaeth). | - | 2 | 11.1 | Cynnal | Mesur Blynyddol |



**Amgylchedd - Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo1- Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw | 12.6 | 11 | 9 | Bodlon gweld Gostyngiad* | 9.00 |

*  =  Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo2-Canran cwsmeriaid y ddesg gymorth cynnal a chadw sy’n fodlon gyda’r gwasanaeth a dderbyniwyd | - | - | 97.5 | Cynnal | 98.05 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo3-Canran yr adeiladau'r Cyngor yng nghategori cyflwr da neu dderbyniol | 93.1 | 96 | 96 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo4-Canran adeiladau gyda systemau diogelwch priodol mewn lle i alluogi defnyddio'r adeilad i ddarparu gwasanaeth | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur newydd-trefniadau yn cael eu gosod |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo5-Canran o gwsmeriaid sy'n fodlon fod y gwasanaeth a gafwyd yn effeithlon a phwrpasol | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur newydd-trefniadau yn cael eu gosod |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo6-Canran o adeiladau newydd (neu addasiadau) sy'n cael eu cyflawni o fewn yr amserlen a'r gyllideb | 100 | 79 | 88.2 | Gwelliant | 100% |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo7-Canran o ddefnyddwyr sy'n hapus gydag adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi eu haddasu | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 100% |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo 8-Incwm o waredu eiddo sydd ar gael i'r Cyngor ail ddefnyddio | £871,000 | £1,551,000 | £1,967,000 | Bodlon Gweld Gostyngiad | £246,685 |
| Cynllunio ac Amgylchedd | CT30- Cyrraedd cam allweddol yn y broses o baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau. Cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd I Lywodraeth Cymru. | 80 | 85 | 100 | Cynnal | 25% |
| Cynllunio ac Amgylchedd | PLA004b Lleol- Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod a pa mor sydyn maent yn cael eu penderfynu ar gyfartaledd. | - |  | - | Sefydlu Gwaelodlin | 78.7%- 34 diwrnod |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio ac Amgylchedd | Mesur Cenedlaethol:<br>PLA004b Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos | 73.13 | 72.86 | 76.44 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Cynllunio ac Amgylchedd | PLA006b Lleol- Canran o dai fforddiadwy ganiatawyd gyda cheisiadau cynllunio am dai. | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 72.9% |
| Cynllunio ac Amgylchedd | Mesur Cenedlaethol:<br>PLA006b Nifer o unedau tai fforddiadwy a gafodd eu darparu fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd eu darparu yn ystod y flwyddyn drwy'r drefn cynllunio | 30 | 41 | 50 | I'w sefydlu | Mesur Blynyddol |
| Cynllunio ac Amgylchedd | PLA005- Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 12 wythnos o gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn | 85.1 | 69.5 | 71.43 | Cynnal | 67.27% |
| Cynllunio ac Amgylchedd | PLA002- Canran y ceisiadau cynllunio wedi eu pennu a gafodd eu cymeradwyo | 95.56 | 94.76 | 93.28 | Cynnal | 88.2% |
| Cynllunio ac Amgylchedd | Cynllunio01- Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 84.6% |
| Gwarchod y Cyhoedd | GyC02- Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth. | 96 | 97 | 97 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Gwarchod y Cyhoedd | GyC03- Canran y Ceisiadau am Wasanaeth sy'n derbyn ymateb o fewn targed. | 92 | 92 | 95 | Cynnal | 92 |

Tud. 22

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchod y Cyhoedd | GyC04- Canran y Ceisiadau am Wasanaeth a chafodd eu datrys o fewn 6 mis o'r dyddiad derbyn. | 93 | 93 | 92 | Gwelliant | 83 |
| Gwarchod y Cyhoedd | GyC07- Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sy'n agored i gael arolygiad yn ystod y flwyddyn. | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 28 (yn unol â'r proffil) |
| Gwarchod y Cyhoedd | GyC22- Canran o fusnesau anghydffurfiol sy'n gwerthu nwyddau gyda chyfyngiad oed sydd bellach yn cydymffurfio | 86 | 86 | 94 | Cynnal | 76 |
| Gwarchod y Cyhoedd | GyC23- Canran yr ymatebion i geisiadau am wasanaeth parthed cŵn strae o fewn un diwrnod gwaith | 96 | 78 | 92 | Cynnal | 94.12 |
| Gwarchod y Cyhoedd | GyC25- Canran y busnesau newydd wedi eu canfod ac sydd wedi cael ymweliad asesu risg neu gwnaeth ddychwelyd holiadur hunan asesu yn ystod y flwyddyn | - | Newydd i 2014-15 | 90 | Cynnal | 74 |
| Gwarchod y Cyhoedd | GyC26- Canran y busnesau uchel eu risg sy'n agored i gael arolygiad sydd wedi ei dderbyn. | - | Newydd i 2014-15 | 100 | Cynnal | 48 (yn unol â'r proffil) |
| Gwarchod y Cyhoedd | PAM9aCanran o sefydliadau bwyd sydd yn y system sy'n cyrraedd sgôr 4/5 safonau hylendid bwyd. | - | 91 | 93 | Gwelliant | 92 |
| Gwarchod y Cyhoedd | PPN/007- Canran y troseddau sylweddol a gafodd eu cywiro drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd | 87.5 | 92 | 88 | - | 67 |
| Gwarchod y Cyhoedd | PPN/009- Canran o sefydliadau bwyd sydd yn 'cydymffurfio'n fras' a safonau hylendid bwyd. | 95.42 | 97.49 | 97.2 | Gwelliant | 97.18 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cludiant Integredig | Cludiant01- Canran o siwrnai cludiant cyhoeddus (bysus) sydd wedi eu monitro sydd o fewn y terfynau dibynadwyedd (amseroldeb bysus) | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 66 |
| Cludiant Integredig | Cludiant02- Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 42 |
| Cludiant Integredig | THS/007- Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau Teithio rhatach ar y bws. | 84.7 | 84.6 | 80.3 | - | Mesur Blynyddol |
| Traffig | Traffig01- Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 99 |
| Gwaith Stryd | GStryd01- Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 99 |
| Parcio - diolgelwch Ffyrdd | Parcio01b- Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers/ hyfforddiant | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 98.3% |
| Parcio - diolgelwch Ffyrdd | Parcio03- Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 69.5% |



**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai - Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynu Corfforaethol | Caff06d- Canran gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol | 40.35 | 40.33 | 40.42 | Gwelliant | 40.48 |
| Comisiynu Corfforaethol | Caff22- Canran o'r targed Arbedion Effeithlonrwydd Caffael y Cyngor wedi gyflawni | - | - | 100% | Cynnal | Targed Arbedion yn cael ei osod |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archifau | ACH03- Canran cwsmeriaid sy'n fodlon hefo'r gwasanaeth Archifau | 97 | 97 | 98 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Amgueddfeydd a'r Celfyddydau | Celf06- Canran cwsmeriaid sy'n fodlon hefo'r gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | Mesur Blynyddol |
| Twrisitiaeth Marchnata a Gofal Cwsmer | TMGC4- Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,994,155.4 | £4,666,626 | £4,814,867 | Bodlon Gweld Gostyngiad | Mesur Blynyddol |
| Adran Economi a Chymuned | Uchel 07- Nifer y swyddi gwerth uchel wedi'u creu | - | - | 34 | Gwelliant | 22 |
| Adran Economi a Chymuned | PENECON01- Nifer y swyddi wedi eu creu gyda chymorth yr Adran Economi a Chymuned | - | Newydd i 2014-15 | 234.5 | Bodlon Gweld Gostyngiad | 56.5 |
| Adran Economi a Chymuned | PENECON02-Nifer y busnesau wedi eu cefnogi yng Ngwynedd gan yr Adran Economi a Chymuned | - | 92 | 67 | Bodlon Gweld Gostyngiad | 39 |
| Strategaeth a Datblygu | GD01- Nifer cymuned (daearyddol / o ddiddordeb) yn defnyddio technoleg mewn ffordd newydd / | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur Blynyddol |
| Strategaeth a Datblygu | GD02- Nifer o unigolion wedi derbyn cymorth i fynd ar-lein / defnyddio'r we er eu budd personol. | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur Blynyddol |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth a Datblygu | YRE1- Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes / e.fasnachu) o ganlyniad i ymyrraeth Gwynedd Digidol | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur Blynyddol |

**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai - Y Cynghorydd Ioan Thomas**

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf - Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid | CD12.01- Datblygu trefniadau ar gyfer cydymffurfio efo cynlluniau yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno yng Nghwynedd rhwng Medi a Thachwedd 2015, gan gynnwys hyfforddiant addas i staff a chydymffurfiaeth â thelerau'r Cytundebau Partneriaeth Cyflenwi. | - | Do | Do | Cynnal | Do |
| Cyllid | CD12.03- Yr amser (nifer dyddiau) a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budddaliadau'r Dreth Gyngor | 21.03 | 21.77 | 15.23 | Cynnal* | 16.84 |
| Cyllid | CD12.04 - Yr amser (nifer dyddiau) a gymrwyd i brosesu digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | 6.27 (Ch2) | 8.79 (Ch2) | 6.94 (Ch2) | Cynnal* | 5.22 |
| Llyfrgelloedd | LCL/001b - Nifer ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 5040 | 5301 | 4199 | - | Mesur Blynyddol |
| Llyfrgelloedd | LLYF05- Canran o'r defnyddwyr sy'n graddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn dda iawn neu dda | 97.7 | 95.5 | 96 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Tai - Digartrefedd | HHA/008 Canran y cyflwyniadau digartref sy'n cael eu penderfynu o fewn 33 diwrnod gwaith | - | 81.8% | 80.6% | - | Heb Adrodd |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf - Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai | DAT01 Nifer eiddo gwag hir dymor yn y Sir (6 mis neu fwy) wedi dod nol i ddefnydd | 25(Ch2) | 25 (Ch 2) | 34 (Ch 2) | Cynnal | 36 |
| Tai | DAT04 Nifer o dai ar y cynllun Tai Cynllun Lesu | 60 (Ch 2) | 60 (Ch 2) | 60 (Ch 2) | Cynnal | 58 |
| Tai | PSR/002 Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 298 | 242 | 311 | I'w sefydlu* | 284 |
| Tai | PSR/004 Canran o'r anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | Heb adrodd (Ch 2) | 2.4% (Ch 2) | 2.0% (Ch 2) | I'w sefydlu | 3.02% |
| Tai | Strat6 Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd | - | 22 (Ch 2) | 42 (Ch2) | Cynnal | 22 |
| Tai | TAI 03 Y nifer o unedau llai sydd wedi eu sefydlu yn y sir mewn ardaloedd o angen o ganlyniad i: Ddarpariaeth tai fforddiadwy, Ddarpariaeth unedau tai gwag nôl i ddefnydd | - | Dim data | 32 (Ch 2) | Cynnal | 22 |
| Tai | TAI 05 Nifer o unigolion/cyplau/teuluoedd sydd wedi elwa o ganlyniad i: o Ddarpariaeth tai fforddiadwy. | - | Dim data | 82 (Ch2) | Cynnal | Heb Adrodd |

**ADRODDIAD I'R CABINET FFURFIOL**
(15.12.15)

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Roberts

**Pwnc:** Adroddiad Datganiad Ansawdd Blynyddol

**Swyddog cyswllt:** Morwena Edwards

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y 'Datganiad Ansawdd Blynyddol' ar gyfer 2014/15 (Atodiad 1), ac i gytuno i dderbyn 'Datganiad Ansawdd Blynyddol' fel eitem flynyddol barhaus i'r Cabinet yn y dyfodol.

---

**Cyflwyniad**

Yn dilyn adolygiad cenedlaethol 'Lle i Alw'n Gartref' y Comisiynydd Pobl Hŷn yn Nhachwedd 2014, cafwyd argymhellion i wella ansawdd bywyd ein trigolion sydd yn byw yn ein cartrefi gofal. Mewn ymateb i'r argymhellion rhain, cynigwyd rhaglen waith gynhwysfawr ble yr ymrwymwyd i 'Gamau Gofynnol'. Un o'r camau a roddwyd gerbron oedd i gyflwyno 'Datganiad Ansawdd Blynyddol'. Pwrpas y datganiad yw rhoi trosolwg o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol.

Dyma'r tro cyntaf i gyflwyno adroddiad o'r fath a bwriedir sicrhau y byddwn, o hyn ymlaen, yn adrodd yn flynyddol i'r Cabinet. Mae'r adroddiad hwn, yn adrodd ar ansawdd ein cartrefi gofal rhwng o Ebrill 2014 hyd at Fawrth 2015. Mae'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf felly (Atodiad 1), yn adrodd ar ansawdd ein cartrefi gofal o ystyried y wybodaeth sydd eisoes ar gael i'r awdurdod.

Yn dilyn yr adroddiad cyntaf hwn, bwriedir cyflwyno'r 'Datganiad Ansawdd Blynyddol' yn nhymor y gwanwyn - a hynny mewn cylch blynyddol. Bydd yr adroddiad hwnnw (cyfnod Ebrill 2015 - Mawrth 2016) yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mehefin 2016. Fe fydd yr adroddiad yn adrodd ar gynnydd ein hymrwymiadau sydd wedi eu nodi yn y

Rhaglen Waith 'Lle i Alw'n gartref' ac yn benodol o ran y "Camau Gofynnol" sydd wedi eu cytuno. Rhagwelir, erbyn Mehefin 2016, y byddai'n rhesymol ac yn amserol i adrodd ar y cynnydd sydd wedi ei gwneud yn erbyn y rhaglen waith.

Credir fod adrodd ar ansawdd bywyd ein pobl hŷn yn hynod o bwysig a'i fod yn ymarferiad buddiol i ni fel comisiynwyr a darparwyr gofal. Byddwn yn ystyried buddion yr ymarferiad hwn er mwyn ei ddatblygu mewn meysydd eraill o fewn y sector gofal.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Mae ein cartrefi Preswyl a Nyrsio (Preifat a Mewnol) yn gyfrifol am warchod, gofalu a diogelu rhai o bobl fwyaf bregus ein cymdeithas. Ar sail hyn yn unig, mae'n hollol hanfodol ein bod ni fel Cyngor cadw golwg manwl ar eu hansawdd bywyd gan adnabod lle y gallwn wella'n barhaus. Mae'n bwysig fod Cabinet y Cyngor yn ymwybodol o'r safonau cyfredol ac mewn sefyllfa i arwain unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Credir i'r datganiad grynhoi'r sefyllfa yng Ngwynedd yn gywir a theg. Mae'r datganiad yn amlygu tystiolaeth fod gan ein trigolion ansawdd bywyd da ond llefydd amlwg i wella. Amlygir yn y datganiad risgiau sylweddol i ansawdd bwyd ein trigolion, yn benodol o ran cartrefi gofal nyrsio sydd ynghlwm ar broses 'Pryderon Cynyddol'. Er nad yw'r cartrefi hyn o reidrwydd wedi cyrraedd sefyllfa o bryderon cynyddol o ganlyniad i ddiffygion ansawdd bwywyd, mae'r sefyllfaoedd hyn heb os yn cael effaith andwyol ar fywydau ein trigolion.

Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ymateb i amgylchiadau yn bwrpasol fel y maent yn datblygu, ond hefyd yn ceisio deall sut a pham ein bod yn y sefyllfa sydd ohoni. Bydd angen wrth reswm dysgu o'n profiadau, ond hefyd mae angen datblygu datrysiadau cynaliadwy yn strategol ar gyfer y tymor hwy. Yn amlwg mae gan y Cyngor rôl i chwarae o ran gyrru agenda hwn ond bydd yn rhaid gwneud hynny ar y cyd gyda phartneriaid allweddol eraill megis y Bwrdd Iechyd, y Sector Breifat a'r 3ydd Sector.

**Ystyriaethau perthnasol**

Dim i'w adrodd

**Camau nesaf ac amserlen**

Bydd y 'Datganiad Ansawdd Blynyddol' ar gyfer eleni (Ebrill 2015 - Mawrth 2016 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym Mehefin 2016. Byddwn hefyd yn ystyried y budd o gael trefniant tebyg, o ran adrodd ar ansawdd bywyd ein trigolion, ar draws y maes Gofal.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

"Mae sicrhau ansawdd mewn gwasanaeth preswyl yn eithriadol o bwysig i ni fel Cyngor sydd yn darparu a chomisiynu yn helaeth yn y maes. Mae cynnwys yr adroddiad ei hun felly yn bwysig eithriadol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n fwy pwysig yw bod camau yn cael eu cymryd gan y Cyngor, fel comisiynydd a darparwr, a gan y darparwyr eraill, i sicrhau gwelliannau yn y gwasanaeth."

**Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb".

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol".

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Datganiad Ansawdd Blynyddol.

**Dogfennau Cefndirol**

Dim

**Aelod Cabinet :** Y Cynghorydd Gareth Roberts

**Pwnc:** Datganiad Ansawdd Blynyddol 2014/15

## 1. Cyd-destun

Pan fydd dinesydd o Wynedd yn symud i gartref gofal, maent angen byw bywyd o'r ansawdd uchaf mewn lle i'w alw'n 'gartref newydd'. Yn sgil adolygiad y Comisiynydd Pobl Hŷn o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn Cartrefi gofal, mae'r Cyngor yn awyddus i weithio i gyrraedd y nod allweddol ym mhob maes gwasanaeth ar gyfer phobl hŷn, yn enwedig er mwyn gwella ansawdd bywyd ein dinasyddion mewn Cartrefi gofal. Rydym yn frwdfrydig yn ein hymgais i ymateb i her canfyddiadau'r adroddiad '*Lle i'w Alw'n Gartref*' ac yn hyderus ein bod yn gwireddu gwelliannau. Yn ogystal, rydym yn parhau i ddatblygu'r ymarfer da eisoes wedi ei adnabod er mwyn sicrhau'r gwerth yr ydym yn ei roi a pwysigrwydd ansawdd bywyd ein dinasyddion.

Rydym yn benderfynol i ddatblygu llais ein trigolion ym mhob agwedd o'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ein bod yn parchu ei barn, yn deall ei anghenion ac yn datblygu gwasanaeth sydd yn gyd fynd gyda'r gofyn. Yn amlwg, ein nod fel Cyngor yw sicrhau bod ein Cartrefi mewnol a phreifat yn grymuso, galluogi a chyfeillgar, ac yn rhan o'r gymuned yng Ngwynedd. Ein bwriad yw bod yn agored ac yn onest wrth amlinellu'r gwelliannau sydd angen ei cyflawni a'r gwaith cadarnhaol eisoes wedi ei gwblhau. Rydym ar y daith i wella ein gwasanaeth er mwyn cyfarch anghenion trigolion Gwynedd, ac yn edrych ymlaen i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer ein dinasyddion.

## 2. Pwrpas yr adroddiad

Nod yr adroddiad yma yw darparu trosolwg o'r prif faterion sydd wedi deillio o'r cynllun gwaith 2014-15, er mwyn sicrhau ymateb cadarn i ganfyddiadau'r adroddiad *'Lle i Alw'n Gartref'.* Ein bwriad yw cyhoeddi *Datganiad Ansawdd Blynyddol* er mwyn adrodd ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn Cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol.

## 3. Gwybodaeth gefndirol

Yn fras, o ran y darlun yng Ngwynedd, ar y 31 o Orffennaf, 2014 roedd 94% o'r gwelyau Gofal a/neu Nyrsio yn llawn yn y Sir. Ar y 31 o Fawrth, 2015 roedd 644 o bobl 65 oed a throsodd yn cael eu cefnogi mewn Cartrefi Gofal neu Nyrsio yng Ngwynedd. Felly,

- Mae 37 o Gartrefi Gofal a Nyrsio yng Ngwynedd, gyda 26 o'r Cartrefi o fewn y Sector Annibynnol, a 11 Cartref yn rhan o ddarpariaeth fewnol y Cyngor.
- Mae 1,108 o welyau gofal/nyrsio yng Ngwynedd (yn ôl ffigyrau Gorffennaf 2014).
- Mae 4 Uned Tymor Byr (Galluogi / Canolraddol / Ysbaid) wedi eu sefydlu yng Ngwynedd, gyda'r 4 Uned yn rhan o'r ddarpariaeth fewnol y Cyngor.

O ran y patrymau comisiynu gwasanaethau gofal yn fewnol ac yn y sector breifat yng Ngwynedd, mae'r tablau isod yn amlinellu ein darlun ymhellach.

Mae *Tabl 1* yn amlinellu'r dadansoddiad o'r math o welyau, yn ôl yr ardaloedd penodol yn ein Sir (Arfon, Dwyfor, Meirionnydd):

| | Gwelyau Gofal | Gwelyau Gofal EMI | Gwelyau Nyrsio | Gwelyau Nyrsio EMI | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **539** | **95** | **356** | **118** | **1,108** |
| Arfon | 228 | 60 | 149 | 83 | 520 |
| Dwyfor | 177 | 19 | 156 | 35 | 387 |
| Meirionnydd | 134 | 16 | 51 | 0 | 201 |

## 4. Y drefn gomisiynu

Mae'r ymarferiad monitro yng Ngwynedd yn seiliedig ar *Fframwaith Monitro Ansawdd Gogledd Cymru*, gyda'r fframwaith yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Gartrefi gofal am y tro cyntaf yn y flwyddyn 2014 - 15. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar 9 deilliant a gosodir barn yn unol â'r darganfyddiadau a wneir yn erbyn y deilliannau a'r broses o fesur yn ystod yr ymweliad monitro. Yn ystod y cyfnod ble mae'r Fframwaith wedi ei gweithredu, mae'r dyfarniad '*da*' yn cael ei ddefnyddio fel dyfarniad gwaelodlin mewn achosion ble mae'r rhan fwyaf o'r deilliannau a'r mesuriadau wedi cael eu cwrdd.

Mae *Tabl 2* yn amlinellu'r dadansoddiad o'r dyfarniad monitro y Carterfi yn erbyn y deilliannau yn y cyfnod rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015. Mae'r wybodaeth yn

cynnwys y Cartrefi rheini sydd wedi eu monitro yn unol a'r fframwaith hwn yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn amlwg, y gobaith a'r nod yw sicrhau bod ein Cartrefi yn cynnal ac yn rhagori ar y dyfarniad gyda phob ymweliad monitro dilynol.

| Deilliant | Rhagorol | Da | Angen Gwella | Gwael |
|---|---|---|---|---|
| **Deilliant 1** - Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn byw mor annibynnol â phosib. | | **7** | **5** | **1** |
| **Deilliant 2-** Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth rheolaeth o'u bywydau drwy allu gwneud dewisiadau. | | **4** | **9** | |
| **Deilliant 3** - Mae'r Defnyddwyr Gwasanaeth yn ddinasyddion llawn, yn mwynhau'r un hawliau a chyfrifoldebau ag eraill ac fe'u hanogir i adeiladu a chynnal perthnasau drwy ryngweithio'n gadarnhaol. | | **10** | **4** | |
| **Deilliant 4** - Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyfleoedd i gyflawni eu huchelgais, cynnal eu sgiliau a dysgu rhai newydd | | **9** | **4** | |
| **Deilliant 5** - Cefnogir defnyddwyr gwasanaeth i gynnal neu wella eu hiechyd . | | **10** | **2** | **1** |
| **Deilliant 6** - Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn teimlo'n saff a diogel, heb gamwahaniaethu nac aflonyddu. | | **8** | **5** | |
| **Deilliant 7** – Mae'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn cael eu trin â pharch ac urddas. | | **6** | **7** | |
| **Deilliant 8** - Diogelir Defnyddwyr Gwasanaeth rhag cael eu cam-drin yn | | **9** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ariannol | | | | |
| **Deilliant 9** – Mae'r Defnyddwyr Gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel. | | **5** | **8** | |

**Noder**: Nid yw pob deilliant o reidrwydd yn cael sylw yn ystod ymarferion monitro. Mae hyn gan amlaf oherwydd pwysau amser yn ystod y diwrnod/ddau o fonitro a'r manylder sydd ei angen ar gyfer yr ystod ddeilliannau. Fodd bynnag, lle nad oes amser neu gyfle i edrych ar ddeilliant yn erbyn meini prawf cyfan y fframwaith, mae swyddogion yn sicrhau bod y polisïau a gweithdrefnau priodol mewn lle (ar lafar neu ar sail gwybodaeth cyn-monitro).

## 5. .Adlewyrchu ar ein hymarfer a chamau gweithredu

### 5.1 Ein darpariaeth Breifat:-

- ***Trefn monitro:*** Mae'r drefn monitro ein Cartrefi preifat yn cael ei chynnal a'r rhaglen rowlio dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r undeb contractau hefyd yn cynnal ymweliadau monitro wedi ei thargedu i asesu Cartrefi ble mae honiadau penodol/cwynion/Ganllawiau Pryderon Cynyddol neu unrhyw fater diogelu wedi codi. Yn sgil yr ymweliadau yma, mae ymweliad dilynol yn cael ei chynnal mewn 6 mis er mwyn sicrhau fod cynnydd derbyniol mewn gweithredu'r cynllun gwella gwasanaeth.

- ***Eiriolaeth a llais y defnyddiwr:*** Mae eiriolaeth yn cael ei gynnwys fel mater allweddol yn y canllaw defnyddiwr mewn sawl Cartref preifat. Mewn nifer o'r Cartrefi mae posteri a phamffledi yn hysbysebu pwysigrwydd defnydd gwasanaeth adfocatiaeth. Yn sgil ymweliadau monitro, mae tystiolaeth o ddatblygiad phwysigrwydd eiriolaeth ac esiamplau o wella gwasanaeth hyrwyddo llais ein dinasyddion. Er enghraifft, mewn un Cartref bu i breswylwyr drafod cwyn gyda'r swyddog adfocatiaeth a ddilynodd i gychwyn y broses 'Ganllawiau Pryderon Cynyddol '.

- ***Cynllunio ar sail person canolog***: Mae sawl Cartref wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei datblygiad i ddarparu gwasanaeth ar sail anghenion unigol mewn dull person canolog e.e. adnabod hunaniaeth unigol wrth gynnig cynllunio collage o'i stori bywyd, darparu dewis bwydlen a chynnal cyfarfodydd preswylwyr a.y.b.

## 5.2 Ein darpariaeth Fewnol:-

- ***Llais ein dinasyddion ac adfocatiaeth***: Mae pecyn croeso cynhwysfawr wedi ei gwblhau ar gyfer phob preswylwyr yn ein cartrefi mewnol, gyda'r pecynnau a'r gael ar gyfer teuluoedd hefyd. Y bwriad yw lansio'r pecyn yn ffurfiol gydag ein staff ar y 21/10. Nid yn unig yw'r pecyn yn ddogfen ymarferol, ond yn gosod y ffocws i ddatblygu ymhellach ar ein gweledigaeth broffesiynol a chroesawus. Mae'r pecyn yn canolbwyntio a'r gwasanaethau adfocatiaeth a phwysigrwydd o wrando a'r llais ein preswylwyr. Yn ogystal, mae'r pecyn yn cyd-fynd gydag ein strategaeth o godi ymwybyddiaeth yn ein cartrefi preswyl o bwrpas, rôl a phwysigrwydd adfocatiaeth. Felly, mae'r ymgyrch i osod adfocatiaeth yn weladwy ac yn 'fyw' yn ein cartrefi wedi ei weithredu drwy'r pecyn croeso, posteri'n hysbysu'r gwasanaeth, hyfforddiant staff a datblygiad ein gwasanaeth a'r lawr ddaear, er mwyn sicrhau hawliau a chyfarch anghenion ein preswylwyr.

- ***Cynllunio ar sail person canolig*:** Bu i awdit mewnol adlewyrchu fod pob cartref mewnol bellach yn gweithredu dull person canolog i sicrhau cyfarch a bodloni anghenion pob unigol wrth osod allbynnau personol i'w galluogi i fyw bywyd annibynnol a llawn. Mae ein gweithlu wedi derbyn hyfforddiant ar y dull yma o weithio fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant ac anwytho.

- ***Monitro ansawdd gofal:*** Rydym wedi datblygu'r defnydd o'r Olwyn monitro a phwysigrwydd urddas mewn gofal. Ffocws yr olwyn yw mesur deilliannau arweinyddiaeth, ymarfer diogel, gwasanaeth hygyrch ac ymatebol, cyfathrebu yn effeithiol a gwybodaeth a gosod barn gyffredinol am berfformiad y cartref penodol, gyda chynllun gweithredu yn cael ei lunio a'r sail dadansoddiad perfformiad y Cartref a'r sail parthau'r Olwyn. Mae defnydd o'r Olwyn yn gweithio yn dda ac yn gosod cynsail cadarn ar berfformiad a datblygiad ein Cartrefi.

- ***Buddsoddi mewn pobl:*** Yn gyntaf, rydym yn adnabod gwaith caled ein staff ac yn deall pwysigrwydd o barchu ei cyfraniad fel sylfaen ein gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn adnabod pwysigrwydd o fuddsoddi a datblygu sgiliau ein staff drwy gynnal cynllun hyfforddiant cynhwysfawr. Mae ffocws ein hyfforddiant dros y cyfnod yma wedi cynnwys cynnal ein sesiynau hyfforddiant arferol a'r rhaglen rholio, yn ogystal â chynnal hyfforddiant arbenigol mewn meysydd fel adfocatiaeth, 'galluogi/active support', 'dementia care matters' a 'low arousal techniques'. Rydym hefyd wedi gosod rôl hyrwyddwr dementia yn ein Cartrefi.

- ***Datblygu rhwydweithiau cymdeithasol mewn cymunedau preswylwyr:*** Yn amlwg, mae anghenion ein preswylwyr yn deillio o'r asesiad person canolig. Rydym wedi gosod ffocws pellach dros y flwyddyn hon o sicrhau datblygiad cymdeithasu ein preswylwyr wrth sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol yn ein cymunedau, drwy gynyddu defnydd o rwydweithiau 'virtual', a darparu cronfa o

ipads a Wifi am ddim ym mhob cartref preswyl mewnol. Yn ogystal, er mwyn hwyluso ymweliadau teulu a ffrindiau, rydym yn darparu lletya mewn fflatiau ac yn ein tai gofal ychwanegol.

- ***Pwyllgor Preswylwyr a chyfeillion:*** Rydym bellach wedi sefydlu pwyllgorau preswylwyr ym mhob Cartref ac wedi adolygu llwyddiant y pwyllgorau a'r deilliannau yn llifo o'r cyfarfodydd. Yn unol ag Adran 27, mae archwiliadau wedi ei gynnal gyda'r cyfle i breswylwyr siarad yn annibynnol ac yn breifat gyda'r tîm monitro ansawdd, sydd yn cynnwys cynghorwyr, uwch rheolwyr, swyddog technegol a.y.b. Yn ogystal, mae trefniadau monitro a chasglu barn anffurfiol wedi ei sefydlu ym mhob cartref e.e. blwch syniadau. Mae cyfarfod craffu'r drefn yma gyda'i rheolwyr i'w gynnal yn ystod mis Hydref.

- ***Datblygu mynediad gwasanaethau:*** Er mwyn datblygu gwasanaeth arbenigol a pherson canolog, rydym wedi sefydlu'r drefn gweithiwr model generig a sicrhau mynediad i wasanaethau arbenigol iechyd a'r sail egwyddorion galluogi ac allbynnau unigol. I blethu gyda'r gwasanaeth yma, rydym wedi datblygu perthnasoedd a rhwydweithiau cadarnhaol gyda'r gwasanaeth iechyd, gyda chynhaliaeth y berthynas yma yn cael ei monitro yn rheoliad drwy'r fforymau sirol. Mae'r cynllun yma yn y dyddiau cynnar, ond rydym yn frwdfrydig i'w ddatblygu er lles ein dinasyddion ac wedi ymrwymo i sawl peilot gyda'r gwasanaeth iechyd e.e. peilot 'Gofal Deintyddol'. Yn syml, rydym yn deall pwysigrwydd o ddatblygu gweledigaeth gwasanaeth gyda ffocws a'r 'whole systems approach'.

## 6. Gwrando a dysgu

Fel yn y blynyddoedd a fu, o fewn cartrefi'r unigolion bregus eu hunain y tarddodd y nifer mwyaf o honiadau o gamdriniaeth honedig - gyda 63 achos, gyda'r niferoedd o fewn cartrefi preswyl a nyrsio yn gyfartal ar 41 yr un. Wrth gymharu â niferoedd yn y cyfnod blaenorol, gellir gweld fod y niferoedd o honiadau sy'n tarddu o gartrefi preswyl a nyrsio wedi cynyddu yng Ngwynedd llynedd, sydd yn arwyddocaol iawn. Teimlir ymysg Timau Oedolion Gwynedd fod Cartrefi preswyl a nyrsio o dan bwysau cynyddol i recriwtio a chadw staff addas (yn enwedig nyrsys cymwysedig) gan barhau i geisio gofalu am unigolion gydag anghenion dwys iawn.

Yn ystod y cyfnod Ebrill 2014 hyd at Mawrth 2015 roedd tri Cartref Nyrsio yng Ngwynedd ynglwm a chanllawiau 'Pryderon Cynyddol' gyda gwaharddiad ar dderbyn preswylwyr o'r newydd. Mae dau cartrefi dan sylw yn parhau i fod yn ynglwm a'r broses Pryderon Cynyddol ac wrth gwrs mae'n sefyllfa hynod ddyrys. Mae'r Cyngor, ar y cyd hefo holl bartneriaid allweddol, yn ystyried y sefyllfa'n ofalus er mwyn sicrhau gofal a lles ein trigolion.

Mae un o'r gwaharddiadau sy'n parhau wedi'i osod gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ond mae 'r llall yn wirfoddol. Pryderon sylweddol a drafodwyd yn wreiddiol dan Ganllawiau Amddiffyn Oedolion am ansawdd y gofal a digwyddiadau penodol a arweiniodd i'r sefyllfa hon. Mewn un o'r cartrefi nyrsio, mae'r lefel o bryder wedi golygu adolygu pob preswylydd ar y cyd ag Iechyd yn ychwanegol i'r ymweliadau monitro aml sy'n rhan o'r broses.

Rydym wedi ymateb i unrhyw bryder yn brydlon ac unwaith mae'r trothwy yn cael ei gyrraedd, mae'r Darparwr yn cael eu hysbysu a'u cynnwys yn y broses. Mae'n ofynnol bod comisiynwyr yn hysbysu teuluoedd/cynrychiolwyr bod y broses ar waith. Rydym hefyd wedi defnyddio holiaduron barn i sicrhau ein bod yn casglu a gwrando ar farn ein dinasyddion. Amlinellaf isod crynodeb o'r themâu yn codi yn sgil ymchwiliadau:-

- Sefyllfa nyrsys – h.y. diffyg nyrsys
- Lefelau staffio i gyfarch anghenion preswylwyr sydd at anghenion dwys (nyrsio a gofalwyr)
- Anghysondebau mewn ymarfer (gofal a nyrsio)
- Digwyddiadau sydd yn destun i ystyriaeth POVA
- Diffyg arweinyddiaeth
- Gwendidau/anghysondebau mewn safon a chynnwys dogfennaeth.
- Materion 'nutrition' / 'hydration'' / Tissue Viability a diffyg cyfeiriadau amserol at Nyrsys Arbenigol
- Iaith / gwasanaeth dwyieithog – (yn bennaf ochr nyrsio)
- Diffygion yn ffordd mae digwyddiadau'n cael eu hadrodd (e.e. i'r CSSIW)
- Materion meddyginiaeth
- Diffyg hyfforddiant - neu gyraeddiadau hyfforddiant gwan mewn meysydd allweddol (e.e. POVA)

Mae sefyllfa staffio anghyson wrth wraidd amryw o'r rhesymau dros y pryder, heb nyrsys sefydlog, mae arweiniad clinigol yn llithro, sydd yn mynd i gael effaith ar faterion eraill megis dogfennaeth, anghysondebau mewn ymarfer. Rydym yn ymwybodol bod Cartrefi'n cael trafferthion enbyd i recriwtio a chadw nyrsys. Felly, yn sgil pryderon o'r fath, mae'n allweddol fod cydweithio agos rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor i gefnogi'r Cartref o ran codi safonau a delio â'r materion yn y Cynllun Gweithredu i gywiro'r gwendidau. Yn ogystal, mae'r mater recriwtio i Gartrefi nyrsio wedi ei thrafod ar lefel Bwrdd Diogelu Oedolion rhanbarthol. Ein bwriad yw adolygu'r lefelau staffio, tal, safonau a'r drefn comisiynu ar gyfer ein Cartrefi preifat.

Mae *Tabl 3* yn amlinellu rhestr o gwynion rydym wedi ei dderbyn o ran ein darpariaeth fewnol. Ym mhob achos cwyn, mae cynnig trafod gyda'r achwynydd a/neu ofalwr/aelod o'i deulu a chynnal ymchwiliad o'r mater er mwyn allu darparu ymateb yn gyflawn i elfennau'r gwyn.

| Disgrifiad Byr | Cam | Canlyniad |
|---|---|---|
| Cwyn ynglŷn â diffyg staff mewn Cartref Gofal | Cam 1 | Anfonwyd llythyr ymateb i'r achwynydd mewn ymateb i'w cwyn Cam 1. |
| Cwyn ynglŷn â safon y gofal o fewn cartref gofal a'r diffyg cyfathrebu ynglŷn â symud y gofalydd i ysbyty heb ganiatâd y teulu. | Cam 1 | Anfonwyd llythyr cynhwysfawr mewn ymateb i'r gwyn ynghyd ac ymddiheuriad am unrhyw ofid a achoswyd. |
| Defnyddiwr Gwasanaeth wedi derbyn e-bost gan y Gwasanaeth mewn Saesneg. Yr holl ohebiaeth flaenorol wedi bod drwy'r Gymraeg. | Cam 1 | Llythyr ymddiheuriad wedi ei yrru i'r achwynydd, yn ei sicrhau fod aelodau o staff wedi cael eu hatgoffa i ysgrifennu yn dewis iaith yr unigolyn. |
| Cwyn am lendid ystafell, diffyg cynnig brecwast ar un diwrnod, bwyd barbeciw yn lle pryd arferol wedi ei gynnig ar un diwrnod. | Cam 1 | Anfonwyd llythyr ymateb i'r achwynydd mewn ymateb i'w cwyn Cam 1. |
| Grŵp o breswylwyr mewn un Cartref wedi cwyno trwy wasanaeth adfocatiaeth NWAAA am sut y cafwyd rheolwr yn y cartref ei benodi. | Cam 1 | Anfonwyd llythyr ymateb Cam 1 i'r NWAAA iddynt adrodd yn ôl i'r preswylwyr. |
| Cwyn ar ran aelod o'r teulu fod gofal yn israddol mewn un Cartref (dim mewnbwn gan ddietegydd a dim padiau ymataled ar gael) | Cam 1 | Anfonwyd llythyr ymateb Cam 1 yn esbonio ac yn ymddiheuro am unrhyw ofid |

Fel allbwn o sawl gwyn, mae cynlluniau gweithredu wedi ei llunio er mwyn ymateb i'r diffyg wedi ei adnabod a sicrhau nad yw achos o'r fath yn codi eto. Mae sawl engrafith o ddefnydd adfocatiaeth er mwyn cefnogi preswylwyr i leisio ei barn e.e. cefnogaeth wedi ei ddarparu i un preswyliwr i fynd drwy'r broses o werthu ei chartref a phenderfynu pa eiddo i'w gadw a'i drosglwyddo i'w chartref newydd preswyl.

## 7. Casgliadau

Mae crynodeb byr wedi ei amlinellu isod o ran casgliadau yn sgil dadansoddi ein cynnydd o ran ymateb i'r cynllun gweithredu allweddol yma:-

- Mae ymrwymiad mewnol ac allanol i ymateb yn gadarn ac yn barhaus i'r cynllun gwaith yma.

- Mae cynnydd cadarnhaol i ddatblygiad gwasanaethau ar sail anghenion ac allbynnau unigolyn, yn cynnwys, datblygiad mewn gwasanaethau adfocatiaeth, cynllunion anghenion peron, hyfforddiant staff a datblygu gwasanaethau ar sail barn/llais ein dinasyddion.

- Er bod cynnydd mewn sawl ymarfer yn y maes yma, mae angen bwrw ymlaen gyda'r rhaglen waith i sicrhau fod safonau digonol yn gyson ym mhob Cartref ar draws Gwynedd, bo yn Gartref preswyl, nyrsion, mewnol neu breifat.

- Mae angen rhoi sylw pellach i themâu yn codi o achosion cwynion, POVA a 'Ganllawiau Pryderon Cynyddol ' er mwn datblygu ein gwasanaethau ac ymarfer ar sail gwersi wedi ei dysgu. Mae angen i ni barhau i fod yn rhagweithiol er mwyn buddsoddi yn ddigonol yn ein gweithlu, sydd yn gweithio mewn maes heriol a phwysig. Yn ogystal, mae angen gwireddu'r neges yma ar draws ein Cartrefi preifat a chadw'r sgwrs yn fyw o ran ei rôl i gyfrannu i wella ei darpariaeth yn barhaus.

- Mae'r cyfnod diweddar wedi bod yn heriol iawn o ran sicrhau ansawdd gofal mewn rhai o gartrefi nyrsio'r sir. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ymateb i amgylchiadau yn bwrpasol fel y maent yn datblygu, ond hefyd yn ceisio deall sut a pham ein bod yn y sefyllfa sydd ohoni. Bydd angen wrth reswm dysgu o'n profiadau, ond hefyd mae angen datblygu datrysiadau cynaliadwy yn strategol ar gyfer y tymor hwy. Yn amlwg mae gan y Cyngor rôl i chwarae o ran gyrru agenda hwn ond bydd yn rhaid gwneud hynny ar y cyd gyda phartneriaid allweddol eraill megis y Bwrdd Iechyd, y Sector Breifat a'r 3ydd Sector.

- Mae angen rhoi sylw pellach i anghenion arbenigol pobl hyn sy'n byw a dementia a / neu sy'n colli defnydd o synhwyrau. Fe ddylem gael gwell dealltwriaeth o hyn ar draws ein cartrefi gofal ond yn benodol o ran y cartrefi preifat.

Mae'n bwysig nawr ein bod yn adeiladu ar ein cynnydd wrth barhau i symud ymlaen gyda'r rhaglen waith yma, a phwysleisio pwysigrwydd parchu ac ymateb i anghenion a hawliau ein dinasyddion.

**ADRODDIAD I'R CABINET FFURFIOL**
(15.12.15)

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Mair Rowlands

**Pwnc:** Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15

**Swyddog cyswllt:** Morwena Edwards

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15 (Atodiad 1).

---

**Cyflwyniad**

Ar y 30 Hydref 2015, bu Gyngor Gwynedd dderbyn yn swyddogol Adroddiad Blynyddol ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2014/15 gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC).

Mae'n debyg ei fod yn deg nodi fod yr adroddiad yn bositif iawn ac yn amlygu mannau amlwg y mae'r arolygwyr wedi profi cynnydd. Er hyn mae elfennau lle mae angen gwella ac fe fydd y Cyfarwyddwyr Statudol, ynghyd a'r swyddogion perthnasol, yn ystyried y materion hyn yn fanwl iawn, gan lunio rhaglen waith pwrpasol mewn ymateb.

Trwy ddatblygu'r rhaglen waith fe fyddwn yn ystyried rhaglenni gwaith eraill sydd eisoes wedi eu cytuno yn y maes, ond lle bo angen, yn sicrhau ei fod yn cyfarch elfennau o'r newydd sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad (Atodiad 1).

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Mae'r adroddiad yn nodi gwerthusiad Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol o berfformiad Cyngor Gwynedd wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae barn yr

arolygaeth yn amlygu ac yn cynnig cyfleoedd i wella ein gwasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion Gwynedd.

**Ystyriaethau perthnasol**

Dim i'w adrodd

**Camau nesaf ac amserlen**

Bydd y rhaglen waith drafft, mewn ymateb i'r adroddiad dan sylw, yn cael ei gyflwyno i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ym mis Rhagfyr. Yn dilyn cadarnhau'r rhaglen waith fe fydd y Paneli Cyflawni perthnasol yn goruchwylio'r cynnydd a wneir.

Fe fydd yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried ein cynnydd yn unol a'r meysydd sydd wedi eu hadnabod ar gyfer gwella. Bydd gwerthusiad yr Arolygaeth yn cyfarch hyn yn ffurfiol wrth gyflwyno Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2015 / 16.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

"Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae'r adroddiad yn un eithriadol o bositif, yn arbennig felly yng nghyd-destun y math o heriau y mae ein gwasanaethau yn eu wynebu ar hyn o bryd. Cafodd y mater sylw mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, pan yr oedd cynrychiolydd o'r Arolygaeth yn bresennol. Diolchodd y Pwyllgor Craffu am yr adroddiad ond roeddent yn awyddus i weld y Cynllun Gweithredu er mwyn gwirio a oedd yn ddigon cadarn i hybu'r gwelliannau angenrheidiol."

**Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb".

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Er fod yr adroddiad yn cyfeirio at yr ymdrechion sydd eisoes wedi eu gwneud i wireddu arbedion effeithlonrwydd, ac at yr angen i ddarganfod arbedion a thoriadau pellach, ni fyddai derbyn yr adroddiad yn ymrwymo'r Cyngor i wariant ychwanegol nac yn rhwystro'r Cyngor rhag gwireddu'r cynlluniau arbedion pellach sydd yn eu lle ar gyfer y gwasanaethau dan sylw. Mae'r Cabinet eisoes yn ymwybodol o'r cynlluniau arbed unigol ar gyfer y gwasanaethau hyn, a'r cyfansymiau disgwyliedig.

Nid oes rheswm ariannol dros wrthwynebu'r penderfyniad a geisir."

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15

**Dogfennau Cefndirol**

Dim

AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd



Hydref 2015

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2014–15

OGL © Hawlfraint y Goron 2015
WG26666 ISBN digidol 978 1 4734 4892 6

**Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015**

| | |
|---|---|
| **Awdurdod Lleol:** | **Cyngor Gwynedd** |

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

## 1. Crynodeb

1.1. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd cadarn yn gwella gwasanaethau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer newidiadau i ddod. Mae gan y cyngor weledigaeth i roi cymorth i bobl yn eu cymunedau mewn ffyrdd creadigol, hyblyg a chost effeithiol, a gwella profiadau a dewisiadau i bobl ag anghenion cymhleth. Mae'r cyngor wedi dechrau datblygu gwasanaethau ar y llinellau hyn ar y cyd ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae mwy o ymgysylltiad a chefnogaeth gan y bwrdd iechyd bellach, yn flaenorol roedd y ddiffyg hwn wedi amharu ar ddatblygiad.

1.2. Mae gwell aliniad rhwng y cyngor ehangach a'r adrannau sy'n cynnig gwasanaethau cymdeithasol, fel y gwelir yn y blaenoriaethau a dulliau gweithredu sy'n cael eu rhannu. Cafwyd cefnogaeth hefyd i'r adran gyda'i hadolygiadau diweddar o'r gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau plant.

1.3. Mae'r ymdrechion i weithio yn fwy cost effeithiol ac effeithlon, ynghyd â'r codiadau sydd wedi eu cynllunio mewn treth cyngor, wedi galluogi'r Cyngor i haneru ei ddiffyg ariannol o £50 miliwn i £25 miliwn, gydag arbedion effeithlonrwydd pellach o £18 miliwn i'w gwireddu dros y blynyddoedd nesaf.

1.4. Mae'r perfformiad mewn rhai meysydd o wasanaethau cymdeithasol wedi bod yn gwella'n gynyddol bob blwyddyn, ac mae meysydd cadarn o arfer a chanlyniadau da megis ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae newid mewn cynllunio gwasanaethau wedi bod yn araf mewn meysydd eraill, megis gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a'r strategaeth llety i oedolion.

1.5. Bydd y newidiadau a fwriedir mewn gwasanaethau cymdeithasol yn gofyn am newid mewn arfer a diwylliant sefydledig. Mae natur a graddfa'r newidiadau mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn achosi risgiau sylweddol y bydd angen lefel uchel o arweinyddiaeth a chymorth arnynt er mwyn eu cyflenwi mewn dull amserol. Dylai'r trefniadau newydd, gydag aelod cabinet ar gyfer

oedolion ac iechyd ac aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc, ei gwneud yn haws i weld y datblygiadau gwasanaeth newydd ac i ymgysylltu â'r bwrdd iechyd.

1.6. Mae'r cyngor yn perfformio'n gryf yn rhoi gofynion 'Mwy na Geiriau' – y fframwaith ar gyfer y Gymraeg – ar waith.

## 2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

| Maes i'w wella a nodwyd y llynedd | Cynnydd yn 2014-2015 |
|---|---|
| Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn gwasanaethau i oedolion. | Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn cyd-gynllunio a chyd-ddatblygu gwasanaethau i oedolion. |
| Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. | Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch-reolwyr yn y bwrdd iechyd. Mae effaith y berthynas well hon eto i gael ei gwerthuso. |
| Defnyddio gwybodaeth gan baneli plant sy'n derbyn gofal i ddisgrifio anghenion a thueddiadau'r boblogaeth. | Mae cynnydd wedi ei wneud o ran arferion adrodd y paneli a fydd yn galluogi'r cyngor i ganfod patrymau dros gyfnod o amser. |
| Amseroldeb asesiadau cychwynnol mewn gwasanaethau plant. | Gwelliant bychan mewn perfformiad. Mae trefniadau newydd wedi'u gwneud i wella amseroldeb ymhellach. |
| Gwelliant parhaus i leihau nifer y plant sy'n cael eu hail-atgyfeirio. | Cafwyd gwelliant mewn perfformiad bob blwyddyn. Mae dealltwriaeth gynyddol o'r data a'r gwahaniad rhwng hysbysiadau ac atgyfeiriadau. |
| Ymwybyddiaeth o wasanaethau eiriolaeth a defnydd ohonynt. | Cafodd y gwasanaeth eiriolaeth ei roi i dendr yn rhanbarthol unwaith eto yn 2014, ac mae trefniadau ar waith yn awr i godi ymwybyddiaeth. |
| Cysondeb wrth ymateb i gwynion. | Gwell perfformiad – mwy o reoli a goruchwylio cwynion. |
| Mynediad at ofal iechyd a llety i blant sy'n derbyn gofal. | Mae'r perfformiad mewn perthynas ag asesiadau iechyd plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod ymhell y tu ôl i gyfartaledd Cymru. Mae llety symud ymlaen yn dal angen ei ddatblygu. Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r cynllun 'Pan fydda i'n Barod' sydd yn yn cynnig opsiwn pellach i blant sy'n derbyn gofal. |
| Gwerthusiad o effaith y strwythurau diogelu corfforaethol | Mae diogelu'n cael blaenoriaeth uchel o fewn y cyngor. Ni welwyd |

| | |
|---|---|
| | tystiolaeth o effaith y trefniant newydd hyd yma. |
| Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant. | Mae perfformiad o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella ychydig, ond mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (85% o'i gymharu â 93%). Mae hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella. |
| Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r trefniadau. | Cafwyd cynnydd sylweddol mewn ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac mae'r cyngor wedi cynyddu nifer yr aseswyr. |
| Sicrhau ansawdd. | Mae uned diogelu ac ansawdd newydd wedi cael ei sefydlu. Mae angen gweithio trwy'r prosesau newydd. |
| Cymorth rhiantu corfforaethol gan y cyngor a phartneriaid i blant sy'n derbyn gofal. | Mae aelodau newydd ar y Panel Rhiantu Corfforaethol, ac mae mwy o gymorth corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal. |

## 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli a gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, cynhaliwyd ymweliadau â:

- Thai Gofal Ychwanegol Cae Garnedd.
- Tîm Integredig Iechyd a Gofal (wedi eu lleoli yn Ysbyty Alltwen) i bobl hŷn a phobl ag anableddau.

3.2. Cyfarfu AGGCC hefyd ag uwch-swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn i adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a thrafod cynnydd gyda'r meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Ymgysylltodd y cyngor yn effeithiol ag AGGCC, ac fe hwylusodd fynediad i alluogi ymweliadau â safleoedd.

3.3. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGGCC arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a chan weithredwyr annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r gwasanaeth mewnol ar gyfer maethu, y gwasanaeth lleoli oedolion, cartrefi gofal, a

gwasanaethau gofal cartref. Mae manylion y rhain yn yr adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi, ac maent ar gael ar wefan AGGCC.

## 4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

4.1. Mae nifer o feysydd penodol ar gyfer gwella wedi cael eu nodi yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd meysydd penodol ar gyfer camau dilynol yn cynnwys:

- Gwelliannau yn yr arfer o amddiffyn oedolion agored i niwed.
- Moderneiddio gwasanaethau anableddau dysgu.
- Strategaeth a gwasanaethau comisiynu iechyd meddwl.

## 5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref.
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## 6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

**<u>Oedolion</u>**

**Trosolwg**

6.1. Mae'r cyngor yn symud tuag at ei nod o sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir, yn y lle cywir a gan y gweithwyr proffesiynol cywir. Mae'r cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd i gyflawni hyn, ac enghraifft o'r gwasanaethau a ddatblygwyd i fodloni anghenion pobl ag anghenion cymhleth yw'r pedair uned tymor byr yng nghartrefi gofal y cyngor er mwyn osgoi derbyn i ysbytai. Mae cyfraddau oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac yn is nag yn y flwyddyn flaenorol.

6.2. Gwellodd perfformiad o ran cwblhau adolygiadau gofal blynyddol, ac roedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (83% o'i gymharu ag 80%). Yn ystod y flwyddyn, nodwyd y dylai'r cyngor a'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau ac arferion effeithiol ar y cyd i sicrhau bod anghenion gofal preswylwyr cartrefi gofal yn cael eu hail-asesu'n amserol.

6.3. Mae nifer y bobl y rhoddodd y cyngor gymorth iddynt mewn cartrefi gofal i bob 1,000 o'r boblogaeth dros 65 oed ar ddiwedd y flwyddyn wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod gyda'r uchaf yng Nghymru (24 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 19). Mae'r cyngor wedi rhoi cymorth i lawer mwy o bobl mewn cartrefi cymunedol na'r cyfartaledd yng Nghymru am flynyddoedd lawer, ac mae pobl yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi gofal sy'n eiddo i'r cyngor yng Ngwynedd nac mewn cynghorau eraill yng Nghymru.

6.4. Canfu arolygiadau AGGCC o gartrefi gofal i oedolion y cyngor fod preswylwyr yn siarad yn gadarnhaol am ansawdd y gofal roeddent yn ei dderbyn. Nododd arolygiadau o'r gwasanaethau hyn bryderon ynghylch gweinyddu meddyginiaeth a chynnal rheolwyr cofrestredig effeithiol, ond cymerodd y cyngor gamau gweithredu amserol ac effeithiol pan godwyd pryderon.

6.5. Roedd tystiolaeth yn y prosiect Corneli Cudd o arfer da oedd wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a'i chanolfan gelfyddydau ac arloesedd, Pontio. Chwaraeodd cerddor a phobl ifanc o'r ysgol leol gerddoriaeth a chanu caneuon Cymraeg, ac roedd y gerddoriaeth a'r canu'n rhan hanfodol o hunaniaeth a phrofiadau bywyd cynnar llawer o'r bobl hyn. Gwellodd y gerddoriaeth a'r cynnwrf ansawdd bywyd y bobl oedd yn byw yn y cartrefi.

6.6. Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion. Mae gan y cyngor bolisi corfforaethol ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed, ac mae ganddo banel strategol sefydledig o aelodau ac uwch-swyddogion. Caiff y panel strategol gymorth gan banel gweithredol gyda rheolwyr o bob un o adrannau'r cyngor. Mae tystiolaeth bod y prosesau diogelu corfforaethol wedi arwain at gamau gweithredu sydd wedi hyrwyddo diogelu ledled y cyngor. Mae'r panel wedi gwneud hyn trwy geisio gwybodaeth ac adroddiadau am ddigwyddiadau lleol penodol o fewn gwasanaethau'r cyngor, ac mae wedi dysgu o brofiadau unigolion agored i niwed. Mae'r panel diogelu strategol yn gweithredu rhaglen waith sy'n seiliedig ar ddysgu gan achosion lleol a chenedlaethol, yn edrych ar y gwersi gan archwiliadau, ac yn datblygu hyfforddiant, polisïau newydd, a dangosfwrdd diogelu. Mae tystiolaeth bod y panel

gweithredol ac adrannau'r cyngor yn rhoi cynlluniau ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen sicrhau bod y gwelliannau a nodwyd o ran diogelu yn digwydd yn gyson ac yn amserol.

6.7. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016.

6.8. Llwyddodd y cyngor i reoli pedair proses uwchgyfeirio pryder ynghylch cartrefi gofal a gwasanaeth gofal cartref, ble cafwyd pryder ynghylch ansawdd y gofal a ddarparwyd. Roedd hyn ddwywaith cymaint ag yn y flwyddyn flaenorol. Gweithiodd y cyngor yn effeithiol i reoli a chau asiantaeth gofal cartref trwy ddefnydd da o dîm brocera'r cyngor a gwasanaethau ac adnoddau'r cyngor ei hun. Roedd y cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid allweddol ac yn gwneud cynlluniau wrth gefn gofalus.

6.9. Mae’r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn darparu fframwaith cyfreithiol i amddiffyn pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal ac ysbytai ac sy'n agored i niwed oherwydd anhwylder meddyliol a diffyg galluedd meddyliol. Cafodd y cyngor gynnydd sylweddol (o saith i 365) mewn ceisiadau ar gyfer awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, sydd wedi arwain at oedi o ran ymgymryd ag asesiadau. Mae'r cyngor wedi ymateb trwy benodi cydgysylltydd a chynyddu nifer yr aseswyr budd pennaf.

6.10. Mae'r cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth comisiynu iechyd meddwl, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016. Canfu'r cyngor fod angen moderneiddio ei wasanaethau anableddau dysgu a datblygu amrywiaeth o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person i gynyddu annibyniaeth. Mae'r cyngor yn mabwysiadu'r model datblygu sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu, ac mae hwn yn ceisio gwireddu dyheadau'n well wrth wneud pobl yn annibynnol. Mae'r agwedd hon yn hyrwyddo dysgu sgiliau newydd ac yn helpu pobl i wneud cymaint o bethau ag y gallant drostynt eu hunain. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn y flwyddyn i ddod. Yn ystod 2014-2015, mae'r cyngor hefyd wedi ymgymryd ag adolygiad o wasanaethau i oedolion.

Mae'r cyngor yn nodi y bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2015.

6.11. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol wedi cynyddu i 120, gan alluogi'r bobl hyn i gael mwy o ddewis, hyblygrwydd a rheolaeth wrth gynnal eu hannibyniaeth. Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y cyngor grŵp gorchwyl, a gyda defnyddwyr gwasanaeth, fe gyd-gynhyrchodd ganllawiau newydd ar gyfer taliadau uniongyrchol, ac mae cynlluniau ar y gweill i gyd-gynhyrchu'r trefniadau yn y flwyddyn sydd i ddod.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.12. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyngor wedi datblygu gwasanaethau ataliol gyda phartneriaid, gan agor ail adnodd gofal ychwanegol yn ystod mis Rhagfyr 2014 ym Mangor, ac mae'n bwriadu agor un arall ym Mhorthmadog yn 2017. Cafodd adnodd gofal ychwanegol Cae Garnedd ym Mangor ei ddatblygu gan bartneriaeth gyda Thai Gogledd Cymru, ac mae'n darparu llety o ansawdd uchel. Dywedodd y bobl oedd yn byw yng Nghae Garnedd eu bod yn derbyn gofal o ansawdd uchel. Roedd yr adnodd yn sefydlu ei weithgareddau cymunedol a chymdeithasol. Dywedodd y gofalwyr oedd yn gweithio yn yr adnodd gofal ychwanegol eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gallu darparu gofal gwell a mwy diogel yn y datblygiad newydd.

6.13. Cafodd y rhaglen Heneiddio'n Dda ei datblygu yn ystod y flwyddyn mewn partneriaeth ag Age Cymru, gyda chanolfannau ym Mlaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Cricieth, Porthmadog a Thremadog yn cael eu sefydlu ar yr egwyddorion ataliol o gadw pobl hŷn yn egnïol ac yn iach a gwella a chreu cyfleoedd cymdeithasol iddynt yn eu cymunedau lleol.

6.14. Fe wnaeth y cyngor asesu neu adolygu anghenion 241 o ofalwyr oedolion yn 2014-2015, sy'n ostyngiad o'r 298 o ofalwyr a gawsant eu hasesu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn destun pryder gan fod nifer y rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru, er bod y nifer wedi cwympo'n barhaus yng Ngwynedd. Nifer y gofalwyr oedolion a gawsant eu hasesu neu eu hail-asesu ar eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn oedd 132.

6.15. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y cyngor pa mor effeithiol oedd y gwasanaeth ailalluogi, a nododd i'r gwasanaeth gynhyrchu arbedion o un filiwn o bunnau ac nad yw 58% o bobl sy'n derbyn y gwasanaeth

angen gwasanaeth am o leiaf un flwyddyn. Nodwyd y gellid targedu'r gwasanaeth ymhellach i wella effeithlonrwydd, a gellid canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau cytûn i'r dinesydd yn hytrach na cheisio lleihau defnydd o'r gwasanaeth yn y dyfodol.

**Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth**

6.16. Rhoddwyd blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan y bwrdd gwasanaeth lleol, a chafodd ei gyflenwi gan y tîm trawsnewid integredig a'r fforwm sirol, sydd yn cynnwys y trydydd sector a phartneriaid tai. Ategwyd at weithio integredig gan rywfaint o gyd-leoli a gwell cyfathrebu rhwng systemau technoleg gwybodaeth. Cafodd rheolwr trawsnewid ei benodi ar y cyd ar draws gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac fe ddangosodd cynlluniau wedi eu cyllido gan y gronfa gofal canolradd ganlyniadau gwell i bobl. Un enghraifft yw'r defnydd o fferyllydd cymunedol, sy'n ymweld â phobl yn eu cartrefi ac sydd wedi gwella defnyddio meddyginiaeth yn effeithiol, lleihau gwastraff, a gwella lles unigolion.

6.17. Symudodd y cyngor a'r bwrdd iechyd tuag at weithio saith diwrnod yr wythnos a galluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty dros y penwythnos. Bydd lolfa ryddhau integredig yn Ysbyty Gwynedd yn cyd-fynd â hyn, gyda'r nod o wella cyfathrebu amlddisgyblaethol a lleihau cyfnod amser cleifion yn yr ysbyty.

6.18. Gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol wrth gychwyn y ffordd newydd o weithio yn Ysbyty Alltwen, Porthmadog, lle mae tîm o staff gwasanaethau cymdeithasol a iechyd yn gweithioar y cyd i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn a phobl ag anableddau. Cafwyd ymgysylltu cryf gyda'r bwrdd iechyd i ddatblygu'r gwasanaeth hwn trwy werthuso'r dull traddodiadol o weithio, sefydlu gwerthoedd newydd, a darparu cymorth ar lefel uwch i roi'r rhaglen ar waith. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar bobl ac ar weithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan ddefnyddio agwedd 'yr hyn sy'n bwysig' ac adeiladu ar gryfderau pobl. Nod y gwasanaeth yw gwneud penderfyniadau amserol mor effeithiol â phosibl. Mae arweinwyr yn y cyngor a'r bwrdd iechyd wed bod ar flaen y gad yn herio a newid arferion, trwy oresgyn rhwystrau biwrocrataidd a chael gwared ar brosesau aneffeithlon. Bydd y cyngor a'r bwrdd iechyd yn wynebu heriau wrth osod y gwerthoedd a'r dulliau gwaith a ddatblygwyd yn y rhaglen beilot yn y brif ffrwd ar raddfa fwy. Gallai'r dull newydd o weithio achosi newidiadau sylweddol o bosibl ac arbedion mewn gwasanaethau i oedolion, a bydd yn dylanwadu ar y cyfeiriad newydd i wasanaethau i bobl hŷn.

**Meysydd o gynnydd**

- Gweithio'n strategol ac yn weithredol gyda'r bwrdd iechyd
- Datblygu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

**Meysydd i'w gwella**

- Diogelu oedolion
- Cymorth i ofalwyr

**<u>Plant a phobl ifanc</u>**

**Trosolwg**

6.19. Roedd perfformiad gwasanaethau i blant yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, gyda chanlyniadau da'n cael eu cyflawni i blant sy'n derbyn gofal ac angen i wella perfformiad o ran gwaith asesu, rheoli gofal, ac adolygu o fewn gwasanaethau plant.

6.20 Mae rheolaeth y cyngor o atgyfeiriadau wedi gwella bob blwyddyn. Mae hysbysiadau ac atgyfeiriadau yn cael eu gwahanu, gan arwain at leihad yn nifer yr atgyfeiriadau plant mewn angen. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ail-atgyfeirio'n dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (26% o'i gymharu â 21%).

6.21. Mae perfformiad o ran amseroldeb asesiadau cychwynnol wedi gwella, ond mae'n dal i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (70% o'i gymharu â 76%), ac mae'n dal yn faes y mae angen i'r cyngor ei wella.

6.22. Darparodd y gwasanaeth gofal cartref i blant anabl ofal o ansawdd da, wedi ei deilwra'n unol ag anghenion, dewis a hoffterau unigol. Dylai'r gwasanaeth ddatblygu gwell gwerthusiad o'i gapasiti i ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen.

6.23. Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r tair blynedd diwethaf yn dilyn cynnydd yn 2012-2013. Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i

fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd.

6.24. Profiad AGGCC yn ystod y flwyddyn oedd bod materion diogelu'n cael sylw'n brydlon, a bod cyfarfodydd strategaeth a phrosesau amddiffyn plant yn cael eu rheoli'n dda.

6.25. Mae'r cyngor wedi cyflawni o ran cyflenwi cynlluniau gweithredu i wella gwasanaethau diogelwch yn dilyn dynladdiad domestig ac adolygiad achos difrifol yr adroddwyd amdanynt y llynedd. Cafwyd dau adolygiad aml-asiantaeth yn ystod y flwyddyn ac un arall sydd wedi datblygu yn adolygiad estynedig ar arferion gwasanaethau plant. Mae swyddogion yn y cyngor wedi ymgymryd â hyfforddiant adolygu arferion gwasanaethau plant ac wedi cyfrannu at adolygiadau ledled y rhanbarth. Mae'r cyngor wedi cymryd camau gweithredu mewn perthynas â gwelliannau a nodwyd yn adolygiad thematig AGGCC 'Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal sy'n dangos Ymddygiad Agored i Niwed neu Ymddygiad Peryglus'. Gwnaed cynnydd o ran gwella dealltwriaeth o wybodaeth paneli a'r her a ddarparir gan aelodau etholedig. Fodd bynnag, mae cynnydd yn araf mewn meysydd fel gwella darparu gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol i blant sy'n derbyn gofal.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol**


**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.26. Daeth gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar dan reolaeth yr adran plant a chefnogi teulu yn ystod y flwyddyn, ac mae hyn wedi bod o gymorth o ran gweithio'n agosach gyda'r timau. Bydd hyn yn caniatáu gwell cynllunio gofal i fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyngor wedi datblygu ei wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae ymestyn y ddarpariaeth Dechrau'n Deg i Fethesda a Thal-y-sarn wedi cynyddu nifer y plant o oedran cyn ysgol sy'n derbyn cymorth i wella eu sgiliau cyn mynd i'r ysgol yn sylweddol. Mae cynlluniau datblygu pellach i ymestyn y ddarpariaeth i Ddolgellau, Pen-y-groes a Gallt y Sil. Rhoddodd y tîm o amgylch y teulu – Gyda'n Gilydd – gymorth i 85 o deuluoedd, a chanfu ymchwil gan Brifysgol Cymru fod 80% o'r teuluoedd wedi nodi bod y gwasanaeth wedi rhoi cymorth iddynt wneud gwelliannau hir dymor. Cafwyd cadarnhad allanol hefyd gan werthusiad gan Brifysgol Oxford Brookes bod y gwasanaeth o ansawdd uchel a'i fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i deuluoedd. Mae'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, sy'n gweithio'n agos â theuluoedd i

gyflawni newid mewn ymddygiad, yn weithredol, ac mae'r adborth yn gadarnhaol am y gwasanaeth, ond bydd gwerthusiad mwy manwl o'r gwaith yn bosibl yn 2015-2016.

6.27. Nododd adolygiad dechrau i'r diweddy cyngorfuddiannau sefydlu Tîm Trothwy Gofal i osgoi gosod plant mewn gofal trwy ymyrraeth fer, ddwys. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio ers dechrau mis Chwefror 2015. Mae’r cyngor yn nodi canlyniadau dechreuol da gan y gwasanaeth, ac mae'n bwriadu defnyddio'r sgiliau sydd wedi cael eu datblygu i drawsnewid gwasanaethau plant.

**Plant sy'n derbyn gofal**




**Niferoedd plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth**

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 163 | 179 | 175 | 195 | 203 | 185 | 194 |

6.28. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi amrywio o gwmpas y rhifolyn 194 am y pedair blynedd diwethaf. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae'r cyngor wedi derbyn nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal yn unol â'r duedd ledled Cymru. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd hyn yn 8.19 plentyn i bob 1,000 yng Ngwynedd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 8.82).

6.29. Casglodd adolygiad y cyngor o’r dechrau i’r diwedd yn 2013-2014 y dylai'r cyngor leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Yn ystod y flwyddyn, daeth 64 o blant yn blant sy'n derbyn gofal, peidiodd 55 o blant â derbyn gofal, a chafodd pump eu mabwysiadu. Mae nifer cynyddol o blant wedi cael eu lleoli gyda'u rhieni dros y tair blynedd diwethaf, gan gynyddu o 6

i 17 ac i 27 yn 2015. Cwympodd nifer y lleoliadau gyda theuluoedd neu ffrindiau dros y tair blynedd (o 45 i 33 i 30 yn yr un modd). Mae nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir wedi aros yn sefydlog o gwmpas 13, gyda lleihad yn nifer y lleoliadau maethu asiantaeth dros dair blynedd (o 31 i 28 i 24).

6.30. Am y tair blynedd diwethaf, dechreuodd lleoliad pob plentyn sy'n derbyn gofal gyda chynllun gofal ar waith, ac mae cynlluniau sefydlogrwydd yn cael eu cwblhau ar amser ymron bob tro. Roedd perfformiad o ran presenoldeb a chyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn dda ar y cyfan, ond roedd y cymwysterau allanol a gyflawnwyd gan blant 16 mlwydd oed ymhell uwchben cyfartaledd Cymru (pwyntiau cymhwyster allanol cyfartalog o 428 o'u cymharu â 274).

6.31. Dim ond gwelliannau bach a wnaed gan y bwrdd iechyd o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (51% o'i gymharu ag 81%).

6.32. Eleni eto, mae gan 100% o'r rhai sy'n derbyn gofal gynllun llwybr ar waith a chynghorydd personol penodedig. Mae hyn wedi bod yr un fath am y tair blynedd diwethaf, ac mae'r cyngor yn gyson yn uwch na chyfartaledd Cymru o 90%.

6.33. Mae'r cyngor wedi rhedeg un o dri chynllun peilot sy'n ymestyn lleoliadau maethu y tu hwnt i ben-blwydd pobl ifanc yn ddeunaw oed. Mae'r cynllun 'Pan fydda i'n Barod' wedi rhoi mwy o ddewis llety i saith o bobl ifanc a'r cyfle i weithio'n agosach gyda nhw i'w paratoi ar gyfer bod yn annibynnol. Mae'r cyngor wedi gallu dysgu gan y cynllun peilot a chyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth.

6.34. Cynhaliodd AGGCC arolygiad o wasanaeth maethu'r cyngor ym mis Hydref a mis Tachwedd 2014, a chafwyd ei fod yn wasanaeth uchel ei barch, oedd yn ymatebol i anghenion y plant ac yn cael ei redeg yn dda. Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gweld yn rheolaidd gan weithwyr cymdeithasol, yn cael eu hannog i fynegi eu barn, ac yn cymryd rhan weithredol ym mywyd y teulu.

**Meysydd o gynnydd**

- Cynhaliwyd canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal
- Datblygu gwasanaethau ataliol

**Meysydd i’w gwella**

- Amseroldeb asesiadau cychwynnol
- Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant
- Amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal
- Amseroldeb asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal

**7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth**

7.1. Mae'r cyngor wedi datblygu protocol sy'n disgrifio perthynas y cyfarwyddwr statudol gyda'r swyddogion allweddol. Mae'r protocol yn cael ei nodi yng nghyfansoddiad newydd y cyngor, a bydd y swyddogion allweddol yn edrych arno ac yn ei gymeradwyo. Mae'r cyngor wedi penodi swyddogion i swyddi newydd pennaeth oedolion, iechyd a lles, a phennaeth plant a chefnogi teuluoedd.

7.2. Mae absenoldeb rhai aelodau o staff allweddol wedi amharu ar allu'r cyngor i gynyddu datblygiadau yn ystod y flwyddyn, gan roi cryn alw ar y cyfarwyddwr corfforaethol a'i thîm. Gwnaeth y cyngor drefniadau i rannu cyfrifoldebau a datblygu gwaith yr adran, gan gynnwys secondio pennaeth arall o fewn y cyngor i fod yn bennaeth dros dro ar yr adran oedolion, iechyd a llesiant. Mae'r cyngor wedi wynebu heriau sylweddol wrth ddarparu capasiti ac arweinyddiaeth broffesiynol mewn gwasanaethau i oedolion yn ystod amser o newid mawr.

7.3. Mae cyfarwyddwr statudol gwasanaethau cymdeithasol wedi bod ar lefel cyfarwyddwr corfforaethol yn y cyngor am ymron i ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd tystiolaeth o well ddealltwriaeth a blaenoriaethu o faterion gwasanaethau cymdeithasol o fewn busnes y cyngor. Mae’r cyngor wedi dangos yn glir eu bod yn rhoi blaenoriaeth i faterion y maes ac yn cefnogi newidiadau mewn ymarfer, sy’n ofynnol yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a sydd yn cael eu gweld yn digwydd yn Alltwen.

7.4. Mae capasiti hefyd wedi lleihau o ganlyniad i newidiadau yn y strwythur corfforaethol, gyda gostyngiad o dri chyfarwyddwr corfforaethol i ddau. Mae'n bwysig bod arweinyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yn cael digon o amser i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau statudol ac ar drawsnewid gwasanaethau.

7.5. Mae'r cyngor wedi cyfrannu at ac wedi elwa ar fentrau rhanbarthol sydd wedi datblygu gofal cymdeithasol a'r sector. Mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yn flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae Partneriaeth Gwynedd a Môn yn nodi pobl hŷn, teuluoedd camweithredol, a chymunedau cynaliadwy/adfywio cymunedol fel ei dair blaenoriaeth.

7.6. Mae'r cyngor wedi cael trafferth ymgysylltu â'r bwrdd iechyd yn y gorffennol. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth dda bod hyn yn gwella ar lefel strategol, weithredol a gwleidyddol. Mae enghraifftiau o hyn yn cynnwys cynllun peilot Allt Wen ac ystyriaeth o berfformiad a gwelliannau mewn arferion rhyddhau o'r ysbyty ym mhwyllgor craffu'r cyngor. Mae trefniadau gweithio newydd y bwrdd iechyd ar gyfer ardaloedd wedi gwella gweithio mewn partneriaeth yng Ngwynedd.

7.7 Mae’r adrannau, drwy weithredu dull newydd o weithio, wedi canolbwyntio ar drefniadau gweithio, ymddygiad a diwylliant sy'n rhoi pobl wrth galon popeth mae'r cyngor yn ei wneud. Mae aliniad sylweddol rhwng egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cynllun peilot Allt Wen, a Ffordd Gwynedd. Mae'r agweddau'n canolbwyntio ar bobl, yn goresgyn rhwystrau strwythurol a biwrocrataidd, ac yn cyflenwi’r hyn sy'n bwysig i bobl mewn ffordd effeithlon.

7.8. Mae sylw corfforaethol wedi ei roi i gefnogi moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol ac ymateb i'r Ddeddf. Mae'r ddau adolygiad sylweddol o drefniadau gweithredol mewn gwasanaethau plant ac oedolion wedi cael eu cefnogi gan y gwasanaeth corfforaethol. Mae'r strwythur adrannol newid wedi caniatáu aliniad agosach rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau ataliol.

7.9. Mae'r cyngor wedi manteisio ar gyfleoedd ac wedi parhau i ddatblygu ei wasanaethau'n raddol. Mae'r cyngor yn adnabod bod angen iddo wella cyfathrebu gyda phartneriaid er mwyn cynhyrchu gwasanaethau ar y cyd. Ni wnaeth y cyngor ddatblygu a gweithredu ei strategaethau comisiynu strategol a gyhoeddwyd yn flaenorol yn llawn. Mae angen amrywiaeth ehangach o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau i bobl sydd â dementia a datblygu gwasanaethau gofal cartref mewn ardaloedd gwledig ynysig.

7.10. Y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2014-2015 oedd £59,056,000, gyda tharged o £6,084,000 ar gyfer arbedion dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cyngor yn wynebu diffyg cyllideb o oddeutu £50,000,000 hyd at 2017-2018, ac er mwyn mynd i'r afael â hyn, efallai y bydd gostyngiad pellach yn y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol, a bydd angen rheoli a chraffu ar y risgiau sy'n gysylltiedig â hyn.

7.11. Yn ystod y flwyddyn, fe ymddeolodd yr aelod cabinet ar gyfer gofal wedi blynyddoedd lawer yn y swydd. Cymerwyd ei le gan aelod cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd ac aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc. Gyda chymorth gan y trefniadau newydd yn yr adran, bydd yr aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc yn arwain ar rianta corfforaethol. Fe ddylai'r aelod cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd gael gwell golwg ar ddatblygiadau newydd y gwasanaeth ac ymgysylltiad â'r bwrdd iechyd.

7.12. Mae'r cyngor wedi perfformio'n dda yn rhoi gofynion Mwy na geiriau – y fframwaith ar gyfer y Gymraeg – ar waith. Wrth roi ail flwyddyn ei gynllun gweithredu ar waith, mae'r cyngor wedi datblygu ei ddealltwriaeth o ble mae angen iddo wella adnoddau Cymraeg a chymryd camau ymarferol yn datblygu ei weithlu Cymraeg ei iaith. Yng nghynhadledd Mwy na Geiriau 2015, enillodd y cyngor wobrau am ddatblygu adnoddau arloesol ar gyfer gweithio gyda phobl sydd â phlant ag anghenion dysgu, gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu gwasanaethau ataliol ac arweinyddiaeth, a datblygu ysgolion iach. Mae'r cyfarwyddwr corfforaethol hefyd yn arwain ar yr agenda hwn yn genedlaethol ac yn cyfrannu at y strategaeth fydd yn dilyn Mwy na geiriau.

7.13. Mae'r cyngor wedi gwella ei oruchwyliaeth a rheolaeth o'r gwasanaeth cwynion. Yn ystod y flwyddyn, dychwelodd aelodau staff allweddol at eu swyddogaethau sylweddol yn rheoli'r broses gwyno, ac mae mwy o oruchwyliaeth o gwynion gan y cyfarwyddwr corfforaethol. Mae'r cyngor wedi rhoi'r canllawiau ar gyfer rheoli cwynion a ddaeth i rym yn 2014 ar waith, a chafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion sydd wedi symud ymlaen at ymchwiliad ffurfiol. Nid oedd unrhyw ymchwiliadau ffurfiol cam dau yn ystod y flwyddyn. Gwnaed un cais am ymchwiliad ffurfiol cam dau, ond canfu'r ymchwilydd annibynnol fod ymchwiliad cynhwysfawr iawn eisoes wedi cael ei gwblhau ar gam un. Bu cynnydd yn nifer yr ymholiadau a sylwadau oedd yn awgrymu datrys problemau'n gynharach. Fodd bynnag, ni chafodd yr holl gwynion eu rheoli o fewn yr amserlenni disgwyliedig, a methwyd ag ymdrin ag 13% o gwynion cam un ar gyfer plant a 26% ar gyfer oedolion o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Roedd amrywiaeth o resymau am yr oediadau hyn, ond yn bennaf roedd yr oedi oherwydd diffyg capasiti rheoli.

**Meysydd o gynnydd**

- Gwell aliniad rhwng y cyngor a'r adran
- Gweithredu Mwy na Geiriau

- Gwell goruchwyliaeth a rheolaeth o gwynion

**Meysydd i'w gwella**

- Gweithredu rhaglenni moderneiddio
- Craffu a goruchwylio rhoi rhaglenni moderneiddio ar waith

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet** | **Eitemau i'w trafod** | **Aelod Cabinet** |
|---|---|---|
| **Chwarter 4 2015/16 –**<br>**1 Ionawr – 30 Mawrth 2016** | | |
| **19 Ionawr** | Datblygu Safle Frondeg | W Gareth Roberts |
| | Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20 | Peredur Jenkins |
| | Adolygiad Strategol o Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad – Y Weledigaeth a Blaenoriaethau | Gareth Thomas |
| | Model Ariannol ar gyfer Tai Fforddiadwy | Ioan Thomas |
| | Cynlluniau Effeithlonrwydd Oedolion a Phlant | Peredur Jenkins |
| | Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr | Ioan Thomas / Dafydd Meurig |
| | Adroddiad Ymchwiliad Iaith i'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd | Dyfrig Siencyn |
| | Adolygiad Strategol Priffyrdd | John Wynn Jones |
| **16 Chwefror** | Toriadau Ariannol 2016/17 | Peredur Jenkins |
| | Cynllun Strategol 2016/17 | Dyfed Edwards |
| | Cyllideb Refeniw 2015/16 – Adolygiad 3ydd Chwarter | Peredur Jenkins |
| | Rhaglen Gyfalaf 2015/16 – Adolygiad 3ydd Chwarter | Peredur Jenkins |

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| | Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 - meysydd Plant a Phobl Ifanc, Diogelu, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol | Dyfed Edwards |
| | Polisi Cludiant Ôl-16 | Gareth Thomas |
| **15 Mawrth** | Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 - meysydd Amgylchedd, Amddifadedd, Economi a Chymuned ac Iechyd, Gofal a Lles | Dyfed Edwards |
| | Cynllun Cydraddoldeb 2016-2020 | Ioan Thomas |
| | Strategaeth Technoleg Gwybodaeth | Peredur Jenkins |
| | Blaenraglen waith Cabinet Cyngor Gwynedd | Dyfed Edwards |
| **Eitemau i'w trafod yn Chwarter 4 2015/16 ond heb ddyddiad wedi ei bennu.** | | |
| | Strategaeth Letya Pobl Hŷn | Ioan Thomas / W Gareth Roberts |
| **Chwarter 1 2016/17 –**<br>**1 Ebrill – 30 Mehefin 2016** | | |
| | Cyfrifon Terfynol 2015/16 – Alldro Refeniw | Peredur Jenkins |
| | Rhaglen Gyfalaf 2015/16 – 2017/18 | Peredur Jenkins |
| | Adolygiad o Gronfeydd | Peredur Jenkins |
| | Materion Parcio | Dafydd Meurig |
| | Ymgynghoriad ar Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd | Ioan Thomas |

| **Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet** | **Eitemau i'w trafod** | **Aelod Cabinet** |
|---|---|---|
| | Adolygu Strategaeth Ffordd Gwynedd | Dyfed Edwards |
| | Rôl y Cyngor yn y Maes Ynni Adnewyddol | John Wynn Jones |